

Cadair gynta i Megan

Megan Jones, tiwtor Cymraeg rhan-amser 35 oed o Ffynnon Taf ond yn wreiddiol o Fethesda, enillodd Gadair Eisteddfod y Rhondda.

Y beirniad oedd Gwynfor Dafydd, enillydd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. 'Roedd safon cerddi'r Gadair wedi fy mhlesio'n arw,' meddai. 'O'r naw ymgais ddaeth i law, byddwn i wedi bod yn hapus iawn i roi'r Gadair i wyth ohonyn nhw ...'

Y gofynion oedd cerdd ar unrhyw fesur hyd at 50 o linellau ar y thema 'Pontydd'.

'Roedd hi'n agos rhwng y rheini ar y brig eleni,' meddai Gwynfor, 'ond yn y pen draw, penderfynais taw cerddi Martha oedd wedi creu'r argraff fwyaf arna i. Mae ganddi stori fer mewn cerdd, a hynny am dair cenhedlaeth yn ystod Streic y Glowyr. ... roedd nerth dweud y bardd wedi peri i mi barhau i chwilio am ystyron.

'Ysgubol'

'Oes, mae yma ddweud ysgubol ar adegau, a'r gallu diymdrech i greu naws a golygfa, fel yn y llinell gyntaf un: "Hirddydd haf a'r heulwen yn ei hwyliu," yn ogystal ag ambell i linell gynganeddol drawiadol: "Y nerth yn gwegian wrth i'r dydd wanio". Mae'n amlwg bod Martha yn deall yn reddfól sut i ysgrifennu ar y mesur rhydd, ac mae'n llwyr deilwng o Gadair Eisteddfod y Rhondda 2024.'

Dywedodd Megan: 'Roedd ennill y Gadair yn brofiad hyfryd. Roeddwn i wedi cyrraedd Capel Hermon yn Nhreforci'n gynnar er mwyn mwynhau gwyllo peth o'r cystadlu. Yna roedd serenoni'r cadeirio ei hun yn brofiad gwych, gyda chroeso cynnes iawn gan y gwirfoddolwyr a'r gynulleidfa cyn mynd ymlaen i'r Lion yn y dre i fwynhau'r gig gan Bwncath oedd yn cloi'r Eisteddfod. Diolch yn fawr iawn i'r gwirfoddolwyr am drefnu diwrnod penigamp.'

Parhad tudalen 14 >



Llifogydd yn taro tai a busnesau



Y busnesau yn Stryd y Felin a'r tai yn Heol Berw a Stryd Sion ym Mhontypridd dioddefodd waethaf yn sgil llifogydd Storm Bert diwedd mis Tachwedd. Yn amlwg rhoddwyd cryn sylw i'r argyfwng gan y gwleidyddion ond y peryg yw na fydd eu geiriau yn troi yn weithredoedd i atal yr un difrod eto. Mae angen sylw manwl ar allu afonydd yr ardal i gario'r llif enfawr o ddŵr sy'n dod i lawr y cymoedd. Mae nerth y stormydd sy'n ein cyrraedd yn cryfhau o flwyddyn i flwyddyn gan achosi perygl a difrod enbyd.

Dathlu'r Eisteddfod Genedlaethol

Cynhaliwyd cyngerdd i ddathlu pawb o Donyrefail a gymerodd ran yr yr Eisteddfod nos Fercher, 6 Tachwedd yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail. Yn ogystal â chorau Tonyrefail, cafwyd perfformiadau gan Côr Cwm Rhondda, Parti'r Efail a Chôr y Dysgwyr. Cyflwynwyd plac i Gwynfor Dafydd i fynd ar wal Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail.



Paula Cook, trefnydd y cyngerdd, yn cyflwyno plac i Gwynfor Dafydd

Rhagor Tudalen > 19.

*Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
i chi gyd*

**Diolch arbennig i holl ohebwy'r
a dosbarthwyr Tafod Elái
am eich cefnogaeth
yn ystod y flwyddyn**

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Chwefror
i gyrraedd erbyn
25 Ionawr 2025

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafodelai.cymru>

Argraffwyr:



EVANPRINT

www.evanprint.co.uk

CYMRAG

*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

**Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro**

Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes**

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

**I gael pris am unrhyw
waith addurno**



**CLWB Y
DWRLYN**

**Canu Plygain
7yh yn Eglwys
Pentyrch**

**Y Fari Lwyd
8.30yh y King's Arms**

**Nos Iau
9 Ionawr 2025**

Manylion pellach:
clwbwdwrllyn@pentyrch.cymru



**CYLCH
CADWGAN**

**7.30yh Nos Wener
24 Ionawr 20245**

**Eurig Davies
yn siarad am
'Peter Williams a'i Feibl'
Arwr cenedlaethol
neu heretic?**

**Yn Ffestri Bethlehem,
Gwaelod y Garth**

Gwledd yr Ŵyl

Cyngerdd Nadolig CÔR

7.30yh Nos Wener, Rhagfyr 20fed
yn Eglwys Sant Helen, Caerffili
Tocynnau: £10
osian_llyr@hotmail.com

**CWIS MAWREDDOG
Y TABERNAACL 2024**



Carpenters, Efail Isaf
Nos Wener, 27 Rhagfyr am 7.30pm

Pob pwnc dan haul
yn cynnwys digwyddiadau'r flwyddyn

Tîmau o bob oed: dim mwy na 6 mewn tîm;
Oedolion £1;
Plant a Phobol ifanc: di-dâl

**HYRWYDDWR & CWIS FEISTR
ALUN WYN BEVAN**

**Cymdeithas Wyddonol
Cylch Caerdydd**

Nos Lun 25ain o Hydref 2024 cawsom ddarlith hynod ddiddorol gan un o'n aelodau sef Rowland Wynne gyda'r teitl 'Ar Grwydr gydag Oppenheimer a Desin'. Ffugenw y ffisegydd Cymraeg Evan James Williams yw Desin ac Oppenheimer neu Oppie yw Julius Robert Oppenheimer, testun y ffilm ddiweddar o'r un enw. Yn y ddarlith hon mae Rowland yn sôn am rai cysylltiadau Cymreig rhwng y ddau wyddonydd yma. Fe fu ambell lythyr uniongyrchol rhwng y ddau ac mae ganddynt nifer o gydweithwyr yn gyffredin fel y byddech yn disgwyl yn ystod y cyfnod cyffroes lle ganwyd Ffiseg Cwantwm cyn, ac yn ystod, yr Ail Ryfel Byd.

Ganwyd Oppenheimer i deulu cyfoethog yn Efrog Newydd yn 1904 tra ganwyd EJ Williams i deulu lled dlawd yng Nghwmsychbant ger Llanbed. Aeth Oppenheimer i ysgol breifat ac yna i Brifysgolion Harvard a Gottingen yn yr Almaen tra aeth Desin i ysgolion Llanwenog a Llandysul (trwy ysgoloriaeth) cyn mynd i brifysgol Abertawe yn 16 oed, ac yna Manceinion a Chaergrawnt. Dros ei yrfa fer, gweithiodd Desin gyda'r enwau mwyaf ym byd Ffiseg gan gynnwys Ernest Rutherford a Niels Bohr. Roedd yn arbrofwr ac yn ddamcaniaethwr gwych gan ddangos gallu neilltuol yn Ffiseg.

Yn ystod ei ddarlith aeth Rowland â ni ar daith ddifyr ymhlith mawrion Ffiseg gyda llwyth o gysylltiadau Cymraeg. Soniodd am hoffter Patrick Blackett o aros ym Mhentref Croesor wrth gerdded mynyddoedd Cymru, cyn sôn am ei gyfeillion Werner Heisenberg o'r Almaen ac Isidor Rabi o'r UDA. Roedd Rabi yn gweithio ar rhagflaenydd i RADAR gyda EG "Taffy" Bowen o Abertawe a oedd yn ei dro yn gweithio gyda Joan Curran, eto o Abertawe. Gweithiodd hi gyda Arthur Llewelyn Hughes o deulu Cymraeg o Lerpwl - mae'n debyg yr unig Gymro oedd yn gweithio ar y bom atomig yn Los Alamos. Soniwyd hefyd am y gwaith a wnaed ar buro Wraniwm yn Rhyd-y-mwyn ger Wrecsam ac am waith Mervyn Jones oedd yn ddarlithydd yn Aberystwyth gyda Desin cyn ei farwolaeth o ganr yn 42 oed yn 1945.

Diolchwn i Rowland am fynd a ni ar grwydr mor ddiddorol.

Rhys Morris

Os hoffech wybodaeth am Gymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd cysylltwch â cymdeithas.wyddonol@gmail.com

Diolch

Diolch i'r Gymdeithas Wyddonol am eu rhodd hael a'u cefnogaeth i Tafod Elái.

PONTYPRIDD

Gohebydd y mis - Jayne Rees

Storm Bert

Anodd credu ein bod yn cofnodi y difrod a ddaeth yn sgil Storm Bert. Fe fydd darllenwyr Tafod Elái wedi dilyn yr hanes ar y cyfryngau. Fe ddaeth Prydain gyfan i wybod am lifogydd Pontypridd (buodd ymdrech arbennig i ynganu enw'r dref yn gywir ond angen fwy o ymarfer ar gyfer Rhondda Cynon Taf!) Gwelwyd yr ysbryd gymunedol yn amlygu ei hun unwaith eto wrth i bobl wirfoddoli i helpu yn Berw Rd, Mill St, Sion St., Yr Amgueddfa a Chlwb y Bont. Diolch o galon i bawb am eu hymroddiad i gael bobman yn sych a glan mor gyflym a phosib. Mae angen ymchwiliad ac adroddiad gan yr awdurdodau perthnasol er mwyn osgoi golygfeydd trychinebus fel hyn yn y dyfodol.

Croeso i'r Prif Lenor

Yn ddiweddar fe gafodd Eurgain Haf gyfle i fynd nôl i'w phentref genedigol i dderbyn cyfarchion a llongyfarchion ar ei gorches yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Yn ôl Eurgain roedd hi'n noson i'w thrysori. Pwyllgor Eisteddfod Bentref Penisarwaun oedd wedi trefnu'r noson yn y Neuadd Gymunedol. Cafwyd atgofion gan gyn brifathro Eurgain Mr. Len Jones ac hefyd Esyllt Maelor oedd yn athrawes Gymraeg iddi yn Ysgol Brynrefail. Cyfrannodd y llenor Angharad Price - ffrind bore oes i Eurgain ac chlywyd englyn iddi gan Annes Glyn. Heb anghofio am y parti canu dan arweiniad John Eifion a gair gan mam Eurgain. Cafodd rhodd o lechen cain a derbyn cyfraniad hael at Achub y Plant.

Noson haeddiannol iawn

Llongyfarchiadau

Mae dwy o ferched Graigwen wedi dathlu penblwyddi yn ddiweddar ac yn edrych mlan at ddefnyddio eu cerdyn teithio bws! Aeth Karen Miles i ddathlu yn Llundain a Sharon Laban i Rufain. Pob dymuniad da

Merched y Wawr

Cafwyd llwyddiant eto gan aelodau o'r gangen yn y Cwis Cenedlaethol. Cynhaliwyd noson canghennau y DeDdwyrain yng Nghlwb y Bont eleni. Cyd enillwyr y rhanbarth oedd tîm Pontypridd 3 a thîm y Bontfaen gyda 90 o farciau yr un. Llongyfarchiadau i Gwerfyl, Menna T. a Jayne. Yn agos iawn oedd tîm Pontypridd 1 sef Delyth D., Dil a Menna L. a roedd Pontypridd 2 ddim yn bell ar ei holau nhw! Diolch i'n haelodau newydd - Mair T., Tracey a Karen M. - am gymryd ran.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant



Gyrfaoedd a Chwricwlwm i Gymru

Fel rhan o wersi gyrfaoedd blynyddoedd 5 a 6, fe ddaeth Mrs Williams i siarad gyda'r disgyblion am ei gwaith ym myd Daeareg. Roedd disgyblion blwyddyn 5 a 6 wrth eu boddau yn dysgu am gerrig, ffosiliau ac am ddulliau mapio ar gyfer safleoedd adeiladu. Hefyd fe ddaeth Mrs Catrin Leader o gwmni egni Bute i siarad gyda'r disgyblion am yrfaoedd yn y sector egni gwyrdd gan ffocysu ar egni gwynt yn bennaf. Roedd y disgyblion wedi mwynhau dysgu am ddyfodol gwyrdd ein planed ac am ddefnydd trydan ac egni gwynt.



Cyfarfodydd y misoedd nesa - Rhagfyr 12 fed - Geraint Thomas, Creigiau yn dangos ei gêm 'Owain Glyndwr' Ionawr 9fed - Wil Morus Jones - hanes William Price. Chewfror 13eg - Noson 'Brethyn Cartre' gan yr aelodau. Croeso cynnes i Glwb y Bont am 7.30 bob tro

Croeso nôl

Mae Siwan, Matt a Steff - heb anghofio am Benji'r ci a phedair cath - wedi ymgartrefu dros dro yn Parc Prospect gyda Dave a Margaret. Gobeithio byddan nhw yma yn Graigwen yn barhaol yn y dyfodol agos.

Croeso nôl hefyd i Alun Reynolds a'i wraig Helen i Faesycoed o Lanharan. Magwyd Alun yn Graigwen ac fel Siwan mae'n gyn ddisgybl Evan James a Rhydfelen.

Clwb Llyfrau

Dewch i Lyfrgell Pontypridd i drafod llyfrau Cymraeg a Saesneg. Bore Mercher am 10.30 - Rhagfyr 18fed/ Ionawr 15fed/ Chwefror 19eg

Beth am lyfr fel anrheg Nadolig? Cyfle da i gefnogi siop lyfre Storyville ar ôl eu colledion yn ystod Storm Bert.

Gohebydd mis Chwefror fydd Margaret Francis.

Ymweliad â Sain Ffagan

Aeth criw o blant o flwyddyn 1 a 2 i Sain Ffagan yn ddiweddar i ddysgu am fywyd yn y gorffennol yng Nghymru. Cafodd plant Blwyddyn 1 gyfle i drafod a chwarae gyda hen deganau a'u cymharu â theganau heddiw, ac fe aeth plant Blwyddyn 2 i Siop Gwalia i weld sut roedd pobl yn siopa amser maith yn ôl. Er gwaetha'r glaw, cafodd pawb amser da iawn!



Ymweliad Dosbarth Derbyn

Aeth plant y Dosbarth Derbyn i Gastell Caerdydd i gael cwrdd â neb llai na Siôn Corn! Cafodd y plant gyfle i wrando ar stori ac i ddweud wrth Siôn Corn beth fydden nhw'n hoffi ei gael fel anrheg eleni. Profiad arbennig iawn!



PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Clwb y Dwrllyn

“Noson gofiadwy, nag e, bythgofiadwy,” medde Alun Wyn Bevan wrth ddiolch ar ddiwedd y cyfarfod pan gafodd Seimon Stockton ei holi gan Huw Llewelyn Davies, cyd aelod iddo yng nghôr Meibion Taf. Cafodd y gynulleidfa ei chyfareddu wrth wrando ar Seimon yn adrodd hanes ei fywyd, o'r cychwyn mewn cartre plant yn Abertawe tan iddo gael ei achub gan deulu Llidiardau ger Llanilar yn bedair oed. O'i amser yn ysgol Tregaron i'w fywyd mewn “bed-sit” yn Aberystwyth, o chwarae rygbi i ymuno â heddlu'r Met, swynwyd a synnwyd pawb gan ei anturiaethau. Chwaraeodd y beic ran bwysig yn yr anturiaethau yma – seiclo i Andorra, Morocco a Nigeria. Dro arall seiclo i Fietnam, Guatemala a Belize. Doedd rhyfedd bod y gynulleidfa yn syfrdan.



Seimon a Huw

Onid wedi cwrdd â Chymraes, priodi a symud i Gaerdydd, trosglwyddodd i heddlu De Cymru. Gweithiodd ar achosion dirdynnol ond teimlodd ei fod yn perthyn i'r bobl leol. Eto fe wynebodd e a'i blant hiliaeth ambell dro. Dyna'r rheswm iddo ddewis cân Bob Marley “Get up. Stand Up For Your Rights” sy'n cael ei chanu gan y teulu ar yr achlysuron cywilyddus hynny.

Mae nawr wedi ymddeol ac yn gweithio i'r Princes Trust yn rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n wynebu anawsterau.

Os nad oeddem wedi clywed enw Seimon Stockton cyn y noson yma ni fydd neb a oedd yno yn anghofio'r enw wedi'r wefr o wrando arno'n adrodd ei hanes anhygoel. Roedd Alun yn sicr yn llygad ei le.

Pedair

Roedd Acapela dan ei sang ar gyfer noson y grŵp gwerin Pedair ddiwedd mis Tachwedd wrth iddynt ddathlu ryddhau ar albym newydd “Dadani.”

Cafwyd noson i'w chofio yng nghwmni'r bedair, Gwanen Gibbard, Gwyneth Glyn, Meinir Gwilym a Siân James. Swynwyd y gynulleidfa wrth iddynt gyflwyno trefniannau o hen alawon ac hefyd sawl cyfansoddiad newydd sbon.

Cafwyd cyfuniad o'r dwys a'r digri a'r naws a grewyd yn hynod. Roedd y ciw hir i brynu'r albym ar ddiwedd y noson yn dweud y cyfan.

Cydymdeimlad

Trist iawn gorfod cofnodi marwolaeth Gareth Huws, Penywaun yn yr ysbyty wedi cyfnod o salwch. Cyfrannodd Gareth yn hael i'r gymdeithas mewn sawl maes a chofiw'n amdano yn arbennig fel un o sylfaenwyr Côr y Mochyn Du.

Cydymdeimlwn yn ddiwyll gyda Morfydd, Rhian a Rhodri a'r wyrion.

Colli (Ifan) Gareth Huws

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth Gareth Huws ar ddiwedd mis Tachwedd.

Mae'n cydymdeimlad yn ddwys ac yn ddiffuant gyda Morfydd, Rhian a Rhodri, a'u teuluoedd hwythau yn dilyn colli gŵr, tad a thadcu hoffus a hael.

Roedd Gareth yn berson mwy nag un fro – gyda'i wreiddiau yn nwf'n yng Ngheredigion, yn y “Bont” (Pontrhydfendigaid) fel y byddai yn ein atgoffa mor aml, ond ei ieuencid wedi ei rannu â thrigolion Llundain am gyfnod - a hynny yn ei dro yn ei wneud yn un o ffans mwyaf pybyr tîm pêl-droed Tottenham Hotspurs!

Onid troi cefn ar Loegr fu ei hanes ef a Morfydd, gan ddechreuedd i fagu teulu i gysgod Castell Caerffili a Mynydd y Garth.

Ac yma, ym Mhentyrch, y treuliodd Gareth weddill ei ddyddiau.

Bydd nifer ohonom yn gyfarwydd a'i yrfa ym myd hysbysebu, a defnyddiodd y sgiliau a fagodd bryd hynny i hyrwyddo'r gwahanol fentrau y bu'n ymwneud a hwy wedi hynny.

Byddwn yn sicr yn cofio am ei fenter fawr, mewn partneriaeth â chyfaill iddo, yn cadw tafarnau, o Gaerllion i Gaerfyrddin, o'r Sarn i Drefforest, o Gaerffili i Abertawe – pwy ohonoch tybed fu'n gloddesta oddiar y platiau anferthol rheini a ddenai'r llygaid, yn amlach na pheidio, yn fwy na'r stumog?

A'r fenter a roddodd y mwyaf o bleser iddo yn ddiuos oedd sefydlu Tafarn y Mochyn Du yng Ngerddi Soffia. Nid glasiad a phryd o fwyd yn unig oedd yr arlwy yno – yn hytrach cynhaliwyd Cyngherddau yno, nosweithiau Opera, Eisteddfod, Ysgol Farddol a Thalwrn, ac yno hefyd, yn yr ardd o amgylch, y dechreuodd “Tafvyl”, a bellach mae'r Wyl flynyddol yma wedi llenwi Castell Caerdydd a Pharc Biwt yn ei thro.

Creu cyfle i'r Gymraeg gael aelwyd i ffynnu arni, a chreu Côr (y Mochyn Du) i hyrwyddo hynny ar y llwyfan cenedlaethol, gan ddod a chlod a bri, a thlwsau di-ri, yn ol i'r brifddinas yn sgil hynny.

Bu'n Gadeirydd ar Glwb y Dwrllyn yn ystod tymhorau 1983/85, ac mae'n syfrdan o sylweddoli ein bod wedi colli tri a fu'n Gadeiryddion y Dwrllyn yn ystod y flwyddyn hon.



Gareth Huws

Roedd yn mwynhau cymeryd rhan yn y Rifiw blynyddol, a byddai hefyd yn rhan o osgordd y Fari Lwyd ar ei hymdaith flynyddol o amgylch Pentyrch.

Gwyddom i Gareth dderbyn triniaeth sylweddol beth amser yn ôl, a bu hynny yn ysgogiad iddo hefyd ymgyrchu'n ddiffino er budd Ysbyty Felindre, Caerdydd. Yr her ar ddydd San Steffan oedd cerdded o amgylch caeau Llandaf a Phontcanna, ac eto byddai yn ei dro wedi llwyddo i ddenu rhai o arwyr cenedlaethol y campau, Geraint Thomas yn eu plith, i gynnwyl y dorff enfawr a fyddai wedi ymgasglu a'u rhoi ar ben ffordd.

Fe grybwyllais ei hoffter o bêl-droed ar y cychwyn, ond i ni, aelodau Clwb Cymric, roedd i Bontcanna ystyr amgen. Yma y'n trwythwyd ganddo am ddegawdau, yma y mireiniwyd ein sgiliau a'n tactegau, a hynny ymhell cyn i Wali Tomos ac Arthur Picton a'r criw ddod yn rhan o'n chwedloniaeth.

Cefnwr canol oedd ei ddewis safle, ond roedd yn “gefnu” i bob chwaraewr ar y cae, beth bynnag eu safle. Byddai'n ysgogi ac yn canmol pan fyddai haeddiant, byddai yr un mor bendant ei gerydd pan fyddai yn angenrheidiol, a hynny yn amlach na pheidio, mewn iaith liwgar ryfeddol.

Onid bu'n driw i'r Clwb hyd y diwedd, ac roedd trefnu digwyddiadau cymdeithasol ymysg y cyn-chwaraewyr yn un o'i orchwyllion olaf, er y gwyddom mwyach na chaed ei gwmi o amgylch y bwrdd i ddathlu'r Cinio Nadolig eleni.

Mae'r uchod, siŵr o fod, yn dysteb ddigon amlwg i'w gyfraniad llawn a pharod yn ein plith, ond i mi yn ddi-os, colli ffrind a ddaeth i'm rhan – cyfeillgarwch sydd wedi ymestyn dros fwy na hanner canrif, ers y dyddiau rheini pan fentrodd hogyn ifanc (swil) o Ddyffryn Nantlle trwy ddrws Tafarn y “New Ely” yng Nghaerdydd i gadw cwmni ag o.

Diolch Gareth - bydd yr hen fyd yma yn dipyn tlotach mewn gair a gweithred o dy golli.

Rhodri-Gwynn Jones

Pentyrch (Parhad)

Clwb Rygbi Pentyrch

Daeth Mis Tachwedd i ben ar nodyn uchel i'r tîm cyntaf wrth iddyn nhw ddangos cymeriad arbennig i guro'r Bontfaen - y tîm sy'n ail yn yr adran - 17-15 mewn gêm galed, gystadleuol ar Barc y Dwrllyn. Daeth hyn ar ôl buddugoliaeth dda 33-21 bant o gartre yn y Gilfach Goch yn y gêm flaenorol, a'r bois felly wedi esgyn i'r 5ed safle yn y gynghrair. Ac mae gêm fawr yn ein haros nesa gartre yn erbyn yr hen elyn Ffynnon Tâf ar y 14eg o'r mis. Cyfartal, 27 yr un, oedd hi yn y frwydyr gyfatebol ddechre'r tymor, felly dewch yn llu i gefnogi a helpu'r tîm i fynd un cam yn well yma ar ein tir ein hunain. Ond stori'r tymor hyd yn hyn yw llwyddiant yr ail dim - wedi ennill pob un o'r 11eg gem hyd yn hyn i fod 12 pwynt yn glir ar frig yr adran. Hir y parhaed. Da gweld yr leuenctid hefyd yn cystadlu'n frwd, ac adran y Mini a'r Ifanc yn dal yn llewyrchus.

Ond wrth gwrs, daeth cwmwl du ar ein traws yn ddiweddar gyda'r newyddion hynod o drist am farwolaeth Gareth Huws - un o hoelion wyth y clwb. Yn berson mor boblogaidd, yn wyneb cyfarwydd yn galw mewn am beint a sgwrs yn rheolaidd yn gynnar gyda'r nos, ac yn hael iawn ei gefnogaeth wrth noddi gêm bob tymor. Byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr, ac mae pawb yn y clwb yn estyn pob cydymdeimlad i Morfydd, Rhian a Rhodri a'r teulu i gyd.

Cofio

Yn ei ysgrif yn rhifyn mis Tachwedd Tafod Elái cyflwynodd Rhodri-Gwynn Jones hanes a chefnid *Roll of Honour* Capel Bethlehem Gwaelod y Garth sef rhestr y bechgyn â chyswllt â'r Capel fu'n brwydro yn y Rhyfel Mawr. Gwnaeth yr ysgrif f'atgoffa i minne ddod ar draws gw'r o'r ardal hon a fu farw yn y rhyfel honno.

Cafodd fy nhad, Robert Wynne, ei fagu yn un o wyth o blant ym Meifod Uchaf, Dyffryn Ardudwy, fferm sy nid nepell o blasy Gors y Gedol. O'r pump bachgen nhad oedd yr ail. Yr hynaf oedd William Wynne ac ymunodd e' â'r fyddin ym mis Tachwedd 1915. Cafodd ei glwyfo y flwyddyn ganlynol tra'n brwydro yng nngledd Ffrainc a threuliodd rai misoedd mewn ysbyty yn Warrington. Ond nôl i faes y gad fu ei hanes wedyn ac i'r Balcanau. Yno y bu ond cafodd ei ladd mewn brwydr yn Salonika ar Fedi'r 18fed 1918 a hynny lai na deufis cyn i'r rhyfel ddod i ben. Ymhen y rhawg byddai ei enw yn ymddangos gyda nifer o'i gyd-filwyr ar y gofeb a godwyd yn y Dyffryn.

Roedd yn aelod o'r Ffiwsilwyr Cymreig ac fe'u claddwyd gyda nifer o'i gyd-aelodau ym mynwent Doiran sydd ar y ffin rhwng Gwlad Groeg a Gogledd Macedonia. Mae gen i nifer o'i lythyron a gobeithio y daw cyfle i mi grynhoi eu cynnwys ac amlinellu ei hanes yn y fyddin. Fûm i erioed yn Doiran i weld ei fedd ond mae ambell aelod o'r teulu wedi ymweld â'r fynwent. Serch hynny mae

copi o Gofrestr y fynwent gen i ynghyd ag ambell lun o'r safle gan gynnwys llun o fedd f'ewythr.

Mae'r Gofrestr yn cynnwys enw lleoliad cartref pob milwr yn ogystal ag enw ei gatrawd. Â minne'n digwydd pori'n frysioi trwy'r ddogfen rhywro dyma weld, er fy syndod, enw Pentyrch.

Enw'r milwr oedd William Jones a berthynai i'r un gatrawd â'm hewthyr. Mwy na hynny cafodd y ddau eu lladd ar yr un dydd. Mae'r Gofrestr yn cofnodi ei fod yn w'r i M Jones o Dŷ Glas, Pentyrch a bod ei dad a'i fam - John a Sarah Jones - o Bontyclun. Daethai'r ddau yn wreiddiol o ardal Aberhonddu a chawsant naw o blant. Gweithiwr ar y rheilffordd oedd y tad.

Cafodd f'ewythr ei ladd ag yntau ond yn 21 mlwydd oed. Roedd William Jones, oedd yn rhingyll, ychydig yn hŷn - 27 mlwydd oed.

Pwy oedd William Jones? Dyw ei enw ddim yn ymddangos ar gofebau Pentyrch na Phontyclun. Ond mewn erthygl yn dwyn y teitl *The Pontyclun War Memorial* gan [Edgeley Thomas](#) (sydd i'w weld ymhlith papurau Cymdeithas Hanes Lleol Llantrisant a'r Cylch) mae'r awdur yn nodi bod nifer o filwyr o Bontyclun na chofnodwyd ar y gofeb ac ymysg y rhain ceir enw William Jones, neu William Herbert Jones i roi ei enw llawn. Yn ogystal cofnodir enwau dau frawd - [Edward Reginald](#) Jones a Thomas John Jones. Lladdwyd Edward, y brawd iau yn Fflandrys fis Mai 2016 ag yntau ond yn 18 mlwydd oed tra goroesodd Thomas, y brawd hŷn. Ag yntau'n ôf, ymunodd Thomas â'r Peirianwyr Brenhinol (Mynwy). Felly, yn ôl Edgeley Thomas, byddai wedi gweld llai o frwydro ar y ffyrnt a hynny yn un rheswm efallai i'w fywyd gael ei achub.

Yn ellir dychmygu yr ing wynebodd John, Sarah a gweddill y teulu yn colli dau fab a'r gofid am dynged y trydydd. Darlun arall os oes angen o bris erchyll cynnal rhyfeloedd.

Ond beth am M. Jones, gwraig William? Does dim gwybodaeth wedi dod i law amdani hi. A wnaeth hi barhau i fyw ym Mhentyrch? A ble yn union oedd y cartre, Tŷ Glas? Ysgwn i a all unrhyw un o ddarlennwyr Tafod Elái daflu goleuni ar y mater?

Â'i frawd wedi ei ladd mae'n bosibl taw nhad fyddai wedi aros ar y ffarm. Ond ag yntau â'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth wnaeth e' ddim cymryd yr awenau a'i frawd Trefor ymgymerodd â'r cyfrifoldeb yn y pendraw.

Dw'i ddim yn cofio i mi glywed fawr ddim gan nhad am ei frawd er mae gen i



Mynwent Doiran

Merched y Wawr Cangen y Garth

Tybed faint o ddarlennwyr Tafod Elái sydd wedi cerdded 'Camino'?

Yng nhyfarfod mis Tachwedd cafwyd taith trwy luniau a storiau di-ri o daith Camino Frances, taith wnaeth Huw Davies gerdded y llynedd.

Eirlys Lamb wnaeth gyflwyno Huw, gan ei bod yn ei adnabod ers dyddiau coleg. Mae Huw yn adnabyddus iawn fel yr actor Ifan Huw Dafydd sydd wedi cael gyrfa hynod lwyddiannus ers y 70au. Ond golwg hollol wahanol o fywyd yr actor gafwyd y prynhawn hwn.


Penderfynodd Huw gerdded y Camino i



goddi arian i ddwy elusen sydd yn agos iawn at ei galon - Ty Hafan a'r Jac Lewis Foundation (er cof am ei nai, Twm). Taith o rhyw 800 kilomedr yw'r Camino Frances sy'n dechrau yn St Jean de Pied de Port, wrth y Pyrenees ac yn gorffen yn Santiago de Compostela yn Galicia. Taith dros gyfnod o bump wythnos ym mis Medi 2023.

Gwelsom nifer o luniau ar y sgrin - eglwysi, cerfluniau, golygfeydd godidog, cerddwyr eraill - â stori ynghlwm wrth bob llun, rhai dwys a doniol! Yn ôl Huw roedd y blinder a'r blisters yn werth yr ymdrech gan iddo godi bron £12,000 at y ddwy elusen a gwneud ffrindie da ar hyd y ffordd.

Mae'n amhosib cofnodi'r daith mewn ychydig o eiriau ond ysgogwyd Huw i fynd ati. Mae ei lyfr 'A Walk to the Edge of the World' yn werth ei ddarllen.



gof, pan yn fach, o'i enw'n cael ei grybwyll mewn gysysiau rhwng nhad a'i frodyr. Ond fel gweinidog byddai'n nhad yn tystio mewn tribiwnlysoedd ar ran gwrthwynebwyr cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd hefyd yn heddychwr gyda chopi o *Peace News* yn ymddangos adre yn rheolaidd. Mae'n anodd credu na chafodd ei ddyllanwadu gan dynged ei frawd.

Rowland Wynne

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cylch Cadwgan

Daeth nifer dda o bobl ynghyd i Ganolfan y Tabernacl nos Wener, Tachwedd 8fed i gyfarfod Cylch Cadwgan. Mi wnaeth Guto Roberts groesawu ei ffrind Coleg, Rheinallt Llwyd i ddathlu canmlwyddiant geni'r llenor a'r awdur toreithiog Islwyn Ffowc Elis.

Cafwyd hanes manwl am deulu'r awdur o'i enedigaeith yn Wrecsam a'i fagwraeth a'i gyfnod ysgol yn Nyffryn Ceiriog. Ar ôl cyfnod yn y Coleg bu Islwyn Ffowc yn weinidog ym Mhowys a Sir Fôn ond buan y cefnodd ar y weinidogaeth er mwyn troi'n awdur proffesiynol. Trodd yn ddiweddarach i fod yn ddarlithydd yng Nghaerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan, cyn troi am gyfnod i weithio i'r Cyngor Llyfrau Cymraeg. Ei gamp gyntaf fel llenor oedd ennill y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1951 am y gyfrol o ysgrifau "Cyn Oeri'r Gwaed". Cyhoeddodd doreth o nofelau gan gynnwys "Cysgod y Cryman", "Wythnos yng Nghymru Fydd" a "Ffenestri Tua'r Gwyl". Diolch i Rheinallt am noson hwylus iawn.

"Rydw i'n gweld â'm llygaid bach i!"

Dymuniadau gorau i Cliff Hewitt, Siân (Pens) Jones ac Eirian Hughes a'r tri wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty ar eu llygaid yn ddiweddar. Brysiwch wella!

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Gwenno, merch Geraint a Caroline Rees sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty ym Meccico. Brysia wella, Gwenno.

Swydd Newydd

Mae Dylan Hughes, mab Celt ac Enfys Hughes wedi newid byd a bellach mae'n ddadansoddwr data gyda Chwmni Admiral yng Nghaerdydd. Mae Amy, gwraig Dylan hithau wedi dechrau ar swydd newydd gyda'r Cydbwyllgor Addysg yn Nhreforest. Tan fis Mai bu'r ddau'n athrawon yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg a Dylan yntau'n Ddirprwy Brifathro yno. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i chi yn eich swyddi newydd.

Ffair y Pentref

Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn Neuadd y Pentref brynhawn Sul, Rhagfyr 1af. Daeth nifer dda iawn o'r pentrefwyr a ffrindiau ynghyd i gefnogi'r digwyddiad. Roedd amrywiaeth o stondinau yno a chyfle i gael paned a theisen neu fwyd poeth. Bydd elw'r prynhawn yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau i Neuadd y Pentref.

Roedd yn hyfryd gwranddo ar blant Ysgol Gymraeg Garth Olwg yn canu carol neu ddwy ac aelodau Côr Godre'r Garth

wedyn yn ein swyno â'u datganiad hwythau o garolau poblogaidd. Bydd Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm yn cynnal eu cyngerdd Nadolig yn Y Tabernacl nos Sul, Rhagfyr 22ain am 7 o'r gloch. Cewch wledd o ganu i'ch paratoi ar gyfer gwyl y Nadolig.

Y Tabernacl Cydyndeimlo

Estynnwn ein cydyndeimlad diffuant i Morfydd Huws, Pentyrch a'r teulu ar gollu ei gŵr, Gareth yn ystod mis Tachwedd.

Diolch Gwilym

Wedi cyfnod o dros ddeng mlynedd yn Ysgrifennydd y Tabernacl mae Gwilym Huws wedi penderfynu ei bod yn bryd iddo ymdeol. Yn bendant fel y soniodd Iwan Rowlands yn ei deyrnged fore Sul yn y Cyfarfod Eglwys, fe fydd esgidiau mawr i'w llenwi. Gobeithir penodi olynwyr i Gwilym erbyn mis Ionawr. Yn ffodus mae Gwilym wedi cytuno i barhau â'r gwaith o gynhyrchu "Dolen y Tab" yn wythnosol a bod yn gyfrifol am system bwcio'r Ganolfan. Diolch o galon i Gwilym am yr holl waith trylwyr mae wedi cyflawni ar ran Y Tabernacl a dymuniadau gorau iddo yntau ac Eleri.

Croeso

Croeso i Cynwyl ac Eilir Davies o Bwll Trap ger San Clêr sydd wedi symud i ardal Meisgyn yn ddiweddar. Maent wedi ymgartrefu'n dda yn y Tabernacl ac yn dod i'r oedfaon pob Sul. Derbyniwyd y ddau yn aelodau yn y Tabernacl yn yr Oedfa Gymun fore Sul y cyntaf o Ragfyr.

Oedfa Bore Dydd Nadolig

Bydd Oedfa Bore y Nadolig Radio Cymru yn dod o'r Tabernacl eleni. Ceisir cyflwyno Oedfa amrywiol gan gynnwys carolau, cerddi a myfyrdodau gan gynnwys cyfraniadau gan yr aelodau, plant yr Ysgol Sul ac aelodau Teulu Twm.

Elusennau'r Tabernacl

Mae aelodau'r Tabernacl yn cefnogi elusennau lleol yn flynyddol. Yr elusennau a benodwyd ar gyfer eleni fydd Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Cymorth i Ferched, Carmel Blaenllechau, Banciau Bwyd Taf Elái a Salem Ton-teg ac Elusen Syr Gareth Edwards.

Casgliadau'r Nadolig

Mae'n adeg casglu ar gyfer y Nadolig unwaith eto er mwyn dod ag ychydig o gysur a llawenydd y Nadolig i bobl sy'n wynebu anawsterau a phroblemau dyrus. Cesglir danteithion Nadoligaidd a nwyddau hylendid i'w dosbarthu i loches Cymorth i Ferched a hosteli ar gyfer pobl ddigartref yn yr ardal. Cesglir rhoddion ariannol er mwyn rhoi 30 o docynnau gwerth £25 i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn diolch am bob rhodd hael gan yr aelodau a ffrindiau'r Tabernacl.

Merched y Tabernacl

Fore Gwener, Tachwedd 15fed fe deithiodd rhyw ddwsin o aelodau Merched y Tabernacl i Gaerdydd i ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol. Ar ôl cyfarfod yn y dderbynfa a chael paned o goffi a chlonc cawsom ein cyfeirio at arddangosfa'r Cymoedd. Roedd yno gyfoeth o waith arlunio, lluniau,, modelau a phob math o hanesion am gymoedd y De. Pleser oedd cael gweld cymaint o waith arbennig gan arlunwyr medrus iawn.

Y cyfarfod nesaf fydd ymweld â Chartref Gofal Penrhos yn Llanilltud Faerdref i gyd-ganu Carolau. Byddwn yn cyfarfod am hanner awr wedi 2 ar ddydd Gwener y 6ed o Ragfyr.

Plannu Coed yn Rhandir y Tabernacl

Mae'r criw prysur Fore Iau wedi penderfynu plannu rhyw ddwsin o goed fel border rhwng y Maes Parcio a'r rhandiroedd. Dymuniad y criw yw cael amrywiaeth o lwyni yn lle cael rhes o goed unffurf. Eu gobaith yw y caiff pob llwyn ei ddewis a'i noddi gan aelod neu gyfaill fel rhodd i'r eglwys. Am wybodaeth bellach cysylltwch ag Edwyn Evans ac Emlyn Pens Jones.

Noson yng Nghwmni Delwyn Siôn

Cafwyd noson hwylus iawn yng Nghanolfan y Tabernacl nos Sadwrn, Tachwedd 30ain yng nghwmni Delwyn Siôn. Cawsom hanes ei deulu yn Aberdâr a chyn canu pob cân fe eglurodd sut yr aeth ati i'w chyfansoddi. Diolch i Eleri Mai a'i ffrindiau am drefnu'r noson a diolch arbennig i Delwyn Siôn am roi inni noson hyfryd iawn a chyfle i gyd-ganu "Dim ond un Seren" i orffen y noson. Cyflwynwyd elw'r noson i Gronfa Distroffi'r Cyhyrau.

Cwis Mawreddog y Tabernacl

Cynhelir Cwis Mawreddog yn y Carpenters, Efail Isaf nos Wener, Rhagfyr 27ain am 7.30yh. Gwahoddir timau o bob oed - tua chwech ymhob tîm. Y Cwis Feistr fydd Alun Wyn Bevan ac mae'n addo cwestiynau am bob pwnc dan haul.

Y tâl mynediad fydd £1 i oedolion a phlant a phobl ifanc yn ddi-dâl.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Rhagfyr a Mis Ionawr

Rhagfyr 1af Oedfa Gymun dan ofal Geraint Rees (Cyfarfod Blynyddol yn dilyn yr Oedfa)

Rhagfyr 8fed Y Parchedig Aled Edwards
Rhagfyr 15fed Oedfa Nadolig y Twmiaid a'r Ysgol Sul

Rhagfyr 22ain Oedfa Nadolig - cyfraniadau gan aelodau.

Rhagfyr 24ain. Oedfa Noswyl Nadolig i ddechrau am 5 o'r gloch yr hwyr.


Rhagfyr 29ain Alun Wyn Bevan

Ionawr 5ed Emlyn ac Ann Davies. Oedfa Gymun

Ionawr 12fed Y Parchedig Aled Edwards
Ionawr 19eg Cyfarfod yn y prynhawn i bob oed dan ofal Geraint a Caroline Rees
Ionawr 26ain Y Parchedig Gethin Rhys

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi 'eicon o gerddor,' awdur yr hunangofiant *Salem a Fi*.



Beth yw eich gwaith?

Bellach gŵr tŷ a rheolwr ailgylchu domestig. Dwi'n sgwennu pwt o gân weithia a dwi newydd gyhoeddi'r llyfr sydd wedi bod yn andros o hwyl.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud? Beth oedd yn apelio fwy?

Dwi wedi troi fy llaw at amryw o betha ond, wrth gyfarwyddo ffilmia, y ces i fwy o fwynhad.

O ble rydych chi'n dod? Pa mor bwysig oedd eich magwraeth?

Hogyn o Bwllheli ydw i a fy magwraeth yno, yn Gymro, yn ganwr, (ac yn Galfinydd am gyfnod), fuo'r dylanwad pwysica arna i.

Ble rydych chi'n byw nawr?

Yn hapus yn hyfrydwch Rhiwbeina, ar fin nant yng nghwmni'r brain.

O ble daw'r enw Endaf?

Drama sgwennodd fy hen ewyrth R D Owen ddechrau'r ugeinfed ganrif oedd *Endaf y Gwladgarwr* ac fe ges i'r enw ar ei ôl gan fy mam. Dwi'n deud yn y llyfr nad oeddwn i'n hoff iawn o'r enw. Bryd hynny, enw prin iawn oedd Endaf. Dwi'n hapusach hefo fo rwan; mae llond bws neu ddau ohonon ni bellach.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?

Do, ond ar brydia prin. Un gwael i blygu i'r drefn Brydeinig oeddwn i. Saesneg oedd cyfrwng addysg yr adeg honno, yn nyddiau olaf yr ymerodraeth.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya?

John Newman, fy athro cerdd, ddysgodd fi i chwarae'r ffidil ac i feddwl fel cerddor proffesiynol ac i fwynhau mynd at bob gwaith. Parhau hefyd mae dylanwad fy rhieni; gwaith anorffenedig ydw i fel y rhan fwy ohonon ni.



Beth oedd hanes creu'r record *Salem*? Pa mor bwysig oedd hi yn eich bywyd?

Daeth *Salem* o ryw reddf i fod wrthi'n gneud petha, yn cynhyrchu, o rwystredigaeth cyflwynydd oedd wedi hen flino aros i gael mynd i weithio'r ochr arall i'r camera. Roedd y llun yn rhan o 'mhleentyndod ac fe daniodd fy nychmyg. Cafodd groeso a daeth cyfleon newydd gwych yn ei sgil.

Mae'n hanner canrif ers rhyddhau'r albwm? Beth yw'r newidiadau mwya?

Yn y diwydiant, y datblygiada digidol, dyfodiad yr mp3, a drodd gelfyddyd yn gynnyrch i greu cyfoeth mawr ar gefn y cerddor tlawd! Mae ffrydio yn gyfleus, ond y technocrats sy'n elwa. Braf ydy gweld feinyll yn dod nol, nid o ran ei safon ond er mwyn rhoi mwy o sylwedd a rhamant yn llaw y prynwr, a chlawr i'w werthfawrogi.

Pam cyhoeddi hunangofiant?

Roedd gen i ambell beth i'w ddweud, a chwestiwn neu ddau i ofyn i mi fy hun. A dwi wedi ymddeol ers ugain mlynedd. Roedd hi'n hen bryd i fi wneud rhywbeth eto!

Beth oedd y broses?

Yn ystrydebol, syllu ar dudalen wen am hir, yn pendroni cyn cychwyn sgwennu, o'r dechra i'r diwedd! Cais i sgwennu'r hanes i ddatlu pen-blwydd record *Salem* yn hanner cant hudodd fi i dderbyn yr her. Dwi'n falch iawn 'mod i wedi mentro. Mae'n broses sy'n datgelu petha annisgwyl i'r sgwennwr. Fasnwn i'n argymhell pawb i roi cynnig arni.

Yn y gyfrol rydych chi'n sôn am iselder pan oeddech chi'n ifanc. Beth yw'r cyngor gorau?

Mae tristwch yn rhan naturiol o fywyd fel ag y mae hapusrwydd. Fe ddaw i ni gyd yn ein tro, ac yn drwm ar yr ifanc. Y drafferth ydy bod y cyfryngau yn dangos byd i ni lle mae pawb yn wirion o siriol o fora gwyn tan nos ac, o ganlyniad, rydan ni'n teimlo pwysa arnon ni i wadu pob ofn a gofid, yn hytrach na rhannu ein pryderon.

Fe wn i hefyd fod iseldra yn pasio heibio, a bod yr hapusrwydd ddaw ar ei ôl yn rhagori ar y cyfan. Rydan ni hefyd yn dod o'n treialon yn gryfach. Peidiwch anobeithio. Holwch a rhannwch.

Beth sy'n eich calonogi am y Gymru gyfoes? Beth sy'n eich tristáu?

Plant a phobol ifanc sy'n codi 'nghalon i, eu gonestrwydd a diniweidrwydd eu gobaieth. Y dynion sy'n hawlio'n gwledydd, i elwa a rhyfela, sy'n fy nhristáu.

Beth yw proses sgrifennu cân? Oes modd rhoi enghraifft?

Dirgelwch ydy'r 'sbarc' sy'n tanio'r creu, a greddfyl ydy'r broses, yn enwedig felly pan yn ifanc. Mae'n rinwedd mewn anwybodaeth. Wedi troi'r deg ar hugain mae'r gallu i greu heb feddwl yn prinhaus a down i oed creu o wybodaeth a phrofiad a thrwy dechneg. Mae'r cynnyrch wedyn yn dod yn fwy caboledig, ond nid o reidrwydd yn 'well'. Y dasg ydy trio anghofio techneg a dal gafael ar 'y sbarc'.

Beth yw eich barn am y sîn gerddoriaeth yng Nghymru?

'Dan ni'n mwynhau cyfnod o gerddorion da iawn. Dwi'n rhyfeddu at yr amrywiaeth arddull sydd ar gael a safon uchel ein perfformwyr. Mae'r teimlad o 'fudiad,' fel ag yr oedd yn ymgyrchoedd y saithdegau i newid y byd, wedi cilio sydd, gobethio, yn arwydd o hyder, nerth, a gobaieth.

Pwy yw eich hoff gerddor a chyfansoddwr?

Dwi'n gwrandao mwy ar gerddoriaeth glasurol ac ar jazz na fydda i ar roc. Pan ddaw gofid, trof at Bach, at sŵn a harddwch y drefn naturiol, ac i leddfu pryder af i wrando ar geinder nodau perffaith Mozart, a'r distawrwydd bendigedig rhyngddyn nhw. Mae *Andante* Mozart yn tawelu'r ofnau, yn arafu curiadau gwylt y galon.

Pa gyngor fydddech chi'n rhoi i gerddor neu chyfansoddwr ifanc?

Daliwch ati, wrth gwrs, ac, wrth ddysgu, peidiwch colli eich arddull bersonol. Mae bod yn wahanol yn allweddol ond yn anodd mewn byd sy'n llawn ysbrydoliaeth pobol eraill.



Beth oedd eich llwyddiant mwya? Y siom fwy?

Dydy'r gwaith a'i daith byth yn llwyddo i gyrraedd copa llwyddiant, a chyd-deithiwr cyson a ffyddlon ydy siom. Y peth gora i fi ydy trio anghofio'r methiannau!

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd

Bwyd syml. Os ydy'r pryd angen paragraff o eglurhad, 'di o ddim yn apelio ata i. Os rhowch i fi fwyd gonest, glân, blasus a 'thraddodiadol,' fe fydda i'n gofyn am fwy.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?

Garddio a choginio'r cynnyrch!

Dolen Gwales: <https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781800996236&tsid=3>

Salem a Fi. Y Lolfa, £11.99

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

'Un o ffynonellau hynaf dynolryw o bleser melys'*



Mae naws yr ŵyl yn amgylchynu'r awyr mor gynnar â mis Medi mewn llawer o siopau ac, erbyn hyn, efallai eich bod wedi cael eich swyno gan y llu o felysion sydd ar gael a phrynnu sawl un. Beiwch y Fictoriaid am eich maddeueb. Bu siwgr yn foethusrwydd i'r cyfoethog am ganrifoedd ond gwelodd y cyfnod Fictoriaidd newid mawr a chyflym mewn diwydiannau o'r 1830au ymlaen. Nawr roedd modd cynhyrchu siwgr yn rhad ac ar raddfa na welwyd ei debyg o'r blaen. Gyda chyflenwad digonol o siwgr rhad, daeth bwydydd melys, gan gynnwys melysion, ar gael i'r boblogaeth gyfan gyda danteithion melys yn dod yn un o brif elfennau tymor y Nadolig ar draws pob rhan o'r gymdeithas.

Gyda'i amlwrpasedd a'i rhwyddineb i'w ddefnyddio i greu addurniadau bwyadwy, mae Marsipán yn ddanteithfwyd melys sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r Nadolig a dathliadau eraill ers canrifoedd. Ond, yn union Marmite, mae'n ymddangos bod pobl yn ei garu neu'n ei gasáu. *Gyda llaw, mae'r teitl yn dod o gyflwyniad i erthygl ar wefan *Good Food*.

Yn *Romeo and Juliet* gan Shakespeare, mae 'The First Servant', wrth glirio platiau i ffrwrdd, yn dweud: "*Good thou, save me a piece of marchpane..*"; Digalonwyd Leonardo da Vinci ar ôl iddo greu cerfluniau cywain allan ohono ar gyfer y cwrt Milanese pan welodd ei greadigaethau yn cael eu bwyta yn lle eu hedmygu. Mae sôn am bast almon fel affrodisiac yn *The Book of One Thousand and One Nights*; mae hefyd yn rhan o chwedlau tylwyth teg Andersen, Hoffmann a'r Brodyr Grimm. Mae Nigella Lawson yn mawrygu ei allu i droi cacen blaen yn gacen bersawrus felys allai hi fwyta unrhyw amser o'r dydd o frecwast ymlaen.

Fel llawer o fwydydd sydd â hanes hir, mae tarddiad marsipán yn ansicr. Wrth gwrs, mae yna nifer o chwedlau gyda dwy yn debyg - mae un yn honni bod marsipán wedi'i ddyfeisio yn yr Eidal. Ym mlwyddyn methiant mawr yn y cnwd, almonau oedd yr unig gynnyrch a orosodd y methiant a dechreuodd Eidalwyr craff wneud bara, pizza a marsipán melys allan ohonynt. Yn ôl chwedl debyg, yn 1407 roedd perygl o newyn yn Lübeck, yn yr Almaen, lle safai ysguboriau yn wag. Dywedir i'r Senedd roi'r dasg i'r pobyddion o wneud bara o almonau: *Marci-panis*. Daeth marsipán yn arbenigedd yn y rhanbarth hwn o Fôr Baltig gyda dinas

Lübecker yn dod yn enwog am ei gynhyrchu (gelwir Lübeck 'Y Brifddinas Marsipán y Byd' gyda chwmnïau yno yn cael eu cydnabod fel cynhyrchwyr marsipán o'r ansawdd gorau) Tarddiad daearyddol posibl arall yw Sbaen a Sisili, oherwydd yn y ddau achos mae dylanwad Arabaidd clir yno gan iddynt fod dan reolaeth Fwslimaidd. Honnir hefyd ei fod wedi tarddu o Persia a'i gyflwyno i Ewrop trwy'r Tyrciaid. Ysgrifennodd y meddyg Rhazes o Bersia, a fu fyw o 850 i 923, lyfr yn canmol y cymysgedd almon a siwgr fel meddyginiaeth i wella afiechydon.



Waeth beth fo'i darddiad, mae'n boblogaidd ledled y byd. Mae melysion marsipán yn cael eu gwneud ar gyfer dathliadau priodas yn Iraq; yn nhalaith Goa India defnyddir cnau cashiw yn lle almonau i wneud melysion mewn gwahanol siapiau fel ffrwythau, blodau a sêr. Mae *Mazapán* yn Meccico yn gefnder i farsipán, lle mae cnau daear yn disodli'r almonau. Mae danteithion Affricanaidd fel 'cornes de gazelles' a chacennau bach tebyg i facarw'n yn cael eu gweini mewn siopau coffi yng ngwledydd Morocco, Algeria, Tunisia a Libya.



Ym Mhrydain defnyddiwyd marchpane, sy'n gyndad i'n marsipán modern, i wneud 'sotelties' (term a ddefnyddir ar gyfer bwyd sydd wedi'i wneud i edrych fel rhywbeth arall) ar gyfer modelu strwythurau cywain ar gyfer gwleddoedd a phriodasau yng nghyfnod y Tuduriaid. Yn ôl pob tebyg, roedd y Frenhines Elisabeth I yn hoff iawn o'r stff ac mae'n debyg fod model marchpane o Hen Gadeirlan St Paul's wedi gwneud argraff mawr arni.

Mae fformiwllâu a chymarebau ar gyfer gwneud marsipán yn amrywio ledled y byd. Fe'i gwneir yn nodweddiadol o almonau di-groen wedi'u malu'n fân, siwgr neu surop siwgr, gwynwy a rhinflas almon; mae mêl, olew almon, fanila, sinamon, nytmeg a sbeisys melys eraill, croen lemwn neu leim, dŵr blodau rhosyn ac oren yn gynhwysion eraill y gellir hefyd eu



Llun o arddangosfa yn Amgueddfa Fitzwilliam yn dangos y math o 'sotelties' fyddai wedi cael eu gwneud o 'marchpane'.

cynnwys.

Mae 'Persipan', wedi'i wneud o gnewyllyn bricyll wedi'i falu'n fân neu eirin gwlanog yn lle almonau, yn rhatach i'w gynhyrchu na marsipán felly fe'i defnyddir weithiau mewn pobi masnachol; mae'n ddefnyddiol hefyd ar gyfer bobl ag alergeddau cnau.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng past marsipán a phast almon? Mae ansawdd past almon yn fwy bras na marsipán ac mae'r cynnwys siwgr yn is a chynnwys almon yn uwch. Gallwch wneud eich marsipán a phast almon eich hun ac mae hyn yn cael ei argymhell gan Nigel Slater sy'n dirmygu marsipán o'r siop gan ddatgan *'I have never eaten anything so palate-numbingly sweet as the vivid yellow commercial marzipan I picked up at the local supermarket this week. The manufacturer had managed to make its product taste sweeter than sugar by including not only sugar but invert sugar and glucose syrup. A triple whammy of saccharine. The almonds, at a miserly 25 per cent, were almost a token'*

Am flynyddoedd roedd ffrwythau marsipán cartref yn rhan o baratodau'r ŵyl yn ein tŷ ni ac yn 'hanfodol' ar gyfer dathlu'r Nadolig yn y

Trallwm gyda fy mam. Os nad ydych chi'n ffansio cael dwylo amryliw o liwio'r pâst neu os nad oes gennyh chi'r amser i'w dreulio ar wneud amrywiaeth o ffrwythau ffug, mae ystod eang o rai ar werth gydag amrywiaeth o brisiau hefyd! Rwy'n hoffi gwneud mins peis â thopin sy'n cynnwys marsipán a byns stollen. Defnyddiaf unrhyw farsipán a llugaeron dros ben wedi'r Nadolig ar gyfer crymbl. Efallai y byddaf hyd yn oed yn rhoi cynnig ar dorth marsipán Nigella eleni!

Dof i ben gyda'r rhybudd iechyd hwny peth mwyaf

gwenwynig y gallech chi ei fwyta'r Nadolig hwn mewn gwirionedd yw marsipán. Gan fod marsipán wedi'i flasu ag almonau mae'n cynnwys amygdalin, ffynhonnell cyanid.



Clwb y Bont

Mynd o nerth i nerth bu hanes Clwb y Bont ers yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn ystod tymor yr Hydref gwerthwyd holl docynnau'r gigs Cymraeg ymhell o flaen llaw. Mae'r cynllun o wahodd rhai o artistiaid amlycaf Cymru yn cynnwys Dafydd Iwan, Al Lewis, Steve Eaves ac enwau fel Lucie Chivers, Sara Davies a Lucy Jenkins yn cefnogi yn amlwg yn parhau i ddal dychymyg; nid yn unig ymhlith pobl dalgylch Pontypridd, ond bellach mae canran rheolaidd o'r gynulleidfa yn teithio'n gyson o Gaerdydd a thu hwnt.

Yn yr un cyfnod ymwelodd cynrychiadau theatr genedlaethol â ni - Mewn Cymeriad yn cyflwyno Sara Cracroft fel Kate Roberts; ac yn fwy diweddar fe droediodd Richard Elfyn ac Iwan Charles lwyfan y Clwb gyda'u portreadau o David Lloyd George ac Adolf Hitler yn y ddrama abswrdd "1936", rhan o daith Theatr Bara Caws.

Mi allwn sôn am lwyddiannau gweithdai pilates, crochenwaith, gwnïo, sesiynau creu cerddoriaeth gyda phobl ifanc a phob math o ddigwyddiadau cymdeithasol eraill; ond bu ffocws diweddar ar ddiifrifoldeb be alla'i fod wedi digwydd o ganlyniad i Storm Bert dros benwythnos 23ain o Dachwedd.



Yn ffodus oherwydd y buddsoddiad mewn cyfarpar i atal llifogydd, ychydig fodfeddi o ddŵr dreiddiodd mewn i Glwb y Bont. Mewn cymhariaeth â'r effaith ar drigolion sy'n byw ar lannau'r Taf, y Lido a busnesau ar Stryd y Felin, prin oedd y difrod. Rydym yn gwerthfawrogi'r holl wirfoddolwyr ddaeth i helpu clirio a glanhau, ac oherwydd eu haelioni llwyddwyd i ail

agor o fewn diwrnod.

Wrth ysgrifennu hwn, rydym yn cydweithio gydag aelodau Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf ar drefnu gig i godi arian at y gronfa lifogydd lleol, yng nghwmni Huw Chiswell a Catrin Herbert. Mae'r Eisteddfod yn ystyried y noson fel ffordd o ddiolch i drigolion yr ardal am y croeso twym galon ym mis fis Awst, a gobeithio'n help ymarferol wrth ddod i delerau â phethau i'r dyfodol.

Mae'n dymor ewyllys da ac mi fydd sawl digwyddiad

Colofn Blasus a Iachus (Parhad)

Ond cyn i chi dagu ar eich stollen, neu daflu'r Battenberg yn y bin, peidiwch â chynhyrfu, dim ond mewn symiau bach iawn, iawn, mae'n bresennol. Byddai'n rhaid i chi fwyta o leiaf 35 cilogram o farsipán mewn un eisteddiad i gael dos marwol, ac ar y pryd hynny nid y cyaniad y dylech chi boeni amdano! Nadolig llawen.



Nadoligaidd yng Nghlwb y Bont. Dewch â'r teulu i fwynhau noson llawn cerddoriaeth ac ysbryd cymunedol yng nghwmni Delwyn Siôn, Bethan Nia, Côr y Bont, Ysgol Evan James ac aelodau band pres lleol ar Nos Fercher 18 Rhagfyr. Bydd casgliad ar y noson er budd Cronfa Llifogydd Storm Bert.

Bydd llawn lle o chwerthin, gweithgareddau, miwsig a hud y Nadolig i blant meithrin a cynradd, mewn sesiynau arbennig ar brynawn Sadwrn 21 Rhagfyr yng nghwmni cast talentog Cynrychiadau Lalala.

Ein hadduned i'r flwyddyn newydd yw ehangu ein darpariaeth i siaradwyr newydd, cefnogi criw pwyllgor Eisteddfod Leol Pontypridd a pharhau i ddenu perfformwyr uchel eu parch i'n plith. Mi fydd Dawnsywyr Nantgarw a Huw M a'i gyfeillion yn dathlu'r Hen Galan ar Ionawr 18fed, Mewn Cymeriad yn cyflwyno drama am fywyd cynnar T. H. Parry-Williams ym mis Chwefror ac wrth gwrs y gigs misol i gyd-fynd gyda Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru a Gŵyl Ddewi.

Chwilio am anrheg munud ola i'r hosan 'Dolig? Beth am brynu tocyn i ddigwyddiad, ymaelodi a'r Clwb neu fachu crys t arbennig?

Nadolig Llawen, Blwyddyn Newydd Dda!

Aled Wyn Phillips
Swyddog Datblygu



Steve Eaves



CYNGERDD NADOLIG

CÔR GODRE'R GARTH

CÔR Y CWM



Nos Sul
22/12/24 7 pm
Capel y Tabernacl, Efail Isaf





Tocynnau
£8/£4 o flaen llaw - Ticketsource
£10/£5 ar y drws



Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau



Gweithdy STEM

Diolch yn fawr iawn i Laura Roberts, Swyddog Allgymorth STEM am ddarparu gweithdy peirianeg sifil i flynyddoedd 3-6. Roedd y disgyblion yn gwbl ymroddedig ac yn gweithio'n galed iawn.



Gweithdy K'NEX

Diolch i Julie XLWales am ddarparu gweithdai gwych gyda'n disgyblion Derbyn i Flwyddyn 3. Roedd pawb wrth eu bodd yn creu goleudai a chartrefi tedi gan ddefnyddio K'NEX.



Twrnament Pêl-droed yr Urdd

Llongyfarchiadau Mawr i 'Dîm Un' YGG Castellau am ennill Twrnament Pêl-droed yr Urdd! Edrychwn ymlaen at eu cefnogi eto ar Fai'r 10fed, lle bydd enillwyr rhanbarthol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn Wyl yr Ysgolion Cynradd, Aberystwyth. Da iawn chi!



Wythnos Gwrth-fwlio
Diolch i Mrs Lloyd a'r Cyngor Lles am eu gwasanaeth 'Gwrth-fwlio'.



Fe wnaethom gefnogi wythnos Gwrth-fwlio trwy gymryd rhan yn Niwrnod Cenedlaethol Sanau Od.



Plant Mewn Angen

Dyma blant Meithrin yn mwynhau gweithgareddau Diwrnod Plant Mewn Angen. Peintio, lliwio a chreu collage Pudsey oedd yr uchafbwyntiau.



Ymweliad Trivallis

Diolch i Jen o Trivallis a ddaeth i siarad â blynyddoedd 4-6 am dai cymdeithasol yn yr ardal leol. Gweithiodd y plant mewn grŵpiau i feddwl am syniadau am yr hyn y gellid ei wneud heddiw ac yn y dyfodol i helpu.



Pantomeim Aladdin

Roedd y plant yn llawn cyffro wrth deithio draw i'r Colisêwm yn Aberdâr ar gyfer y Panto Nadoligaidd eleni. Cafodd y plant a'r staff amser hudolus yn canu ac yn dawnsio gydag Aladdin a gweddill y cymeriadau lliwgar.

Goleuo'r Goeden Nadolig

Bu Cewri Castellau yn brysur iawn yn paratoi posteri i hysbysebu digwyddiad cymunedol yn y Beddau. Daeth tair ysgol



gynradd y pentref at ei gilydd i ganu carolau Cymraeg o gwmpas y goeden Nadolig, sydd ger y llyfrgell. Bu'r Cyngor Creadigol a Mentrus yn ddiwyd yn creu addurniadau Nadolig i'w gwerthu ar y noson. Er gwaethaf y tywydd, daeth torf i gefnogi'r disgyblion, i weld y goeden yn cael ei goleuo ac i gyfarfod â Siôn Corn.

Techno Camps

Diolch i Rhys o Technocamps am weithio gyda Blynyddyn 3 er mwyn ehangu eu gwybodaeth gyfrifiadurol trwy godio robotiaid Lego. Roedden nhw wedi rhaglennu'r robotiaid i deithio dros bontydd y bu iddyn nhw eu creu fel rhan o'u prosiect 'Adeiladau'.





CLWB Y BONT
CLWB Y BONT CYMRU

PATHLU'R HEN GALAN

Canu Cymdeithasol
Gyda Huw M a cherddorion eraill
Dawnswyr Nantgarw

Sadwrn 18 Ion 2025
Drysau'n agor 6.30yh
Oedolion:£3
Plant: am ddim




TOCYNNAU / TICKETS:
ticketsource.co.uk/clwb-y-bont

CLWB Y BONT, 85A TAFF ST, PONTYPRIDD, CF37 4SL

Denu Tiwtoriaid

Annwyl Olygydd
Tybed oes rhai o'ch darllenwyr yn fyfyrwyr neu'n adnabod myfyrwyr hoffai ddysgu mwy am y sector Dysgu Cymraeg?

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg eisiau denu mwy o bobl ifanc i weithio fel tiwtoriaid ac yn cynnig ysgoloriaeth iddyn nhw fynychu cwrs 'Tiwtoriaid Yfory' yn ystod haf 2025.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal rhwng 7 - 18 Gorffennaf yng Nghaerdydd a bydd yn cynnwys gweithdai gyda thiwtorïaid profiadol, a chyfleoedd i arsylwi dosbarthiadau Cwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd.

Mae tiwtora hefyd wrth gwrs yn opsiwn gwyh i fyfyrwyr sy'n chwilio am ychydig o arian pan fo'r esgid yn gwasgu.

Gall myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc yng Nghymru neu tu hwnt wneud cais - 'dyn ni'n chwilio am bobl all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Mae na fwy o wybodaeth ar wefan y Ganolfan - dysgucymraeg.cymru.

Diolch yn fawr a chofion gorau,
Helen Prosser

Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:

Nia Williams

colin.williams@talktalk.net

Sgarffiau Siwan

Glywsocch chi Siwan Oldham, merch Lyn a Gwenfil, gynt o'r Creigiau, yn trafod y sgarffiau silc hynod mae hi'n werthu gyda Sian Cothi ar Radio Cymru? Neu hwyrach i chi weld ei "siop pop-yp" yn John Lewis yng Nghaerdydd. Mae Siwan bellach yn Reolwr Portffolio i fudiad Ymchwil Cancer Plant ac yn byw yn St Albans ond hefyd yn troi ym myd creu a gwerthu sgarffiau silc sydd â delweddau o fyd ymchwil meddygol. Mae'r cynlluniau diweddaraf sydd ganddi yn cynnwys patrymau o fyd microsgopaidd y DNA, sef ddelweddau lliwgar a diddorol tu hwnt. Aiff canran o elw'r gwerthiant i gefnogi'r gwaith ymchwil gwerthfawr hwn. Mae ganddi wefan hefyd, sef bybiology.com.

Apêl yr Urdd i gynnig gwyliau i 1,000 o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tldi

Gydag ystadegau yn dangos fod 30% o blant Cymru yn byw mewn tldi, mae'r Urdd wedi lansio apêl 'Cronfa Cyfle i Bawb 2025' er mwyn sicrhau gwyliau ar gyfer mwy nag erioed o blant a phobl ifanc Cymru sy'n byw mewn amgylchiadau heriol.

CLWB Y BONT
CLWB Y BONT CYMRU

BLWYDDYN NEWYDD DDA!
2025

GIG SANTES DWYNWEN Rhys Gwynfor + Cwtsh 25-01-2025	GIG DYDD MIWSIG CYMRU Delwyn Siôn + Mared 07-02-2025	GIG DYDD GWYL DEWI Rhys Meirion Acwstig + Melda Lois 01-03-2025
---	---	--

TOCYNNAU: TICKETSOURCE.CO.UK/CLWB-Y-BONT

Cyngor Celfyddedau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNR GAN YLOTTERI LOTTERY FUNDED

Diolch i gyfraniadau hael gan unigolion, cymdeithasau, busnesau a chynghorau lleol at y gronfa llynedd, roedd modd i'r mudiad gynnig lle i dros 300 o blant a phobl ifanc o deuluoedd incwm is, gofawr ifanc a phlant maeth ar Wersylloedd Haf 2024.

Bydd nawdd o £220 yn cyfrannu at gost gwyliau i un plentyn neu berson ifanc yng Ngwersyll Glanllyn, Llangrannog, Pentre Ifan neu Gaerdydd.

Cronfa Cyfle i Bawb

Rhoi gwyliau i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru

Gyda bron un plentyn ym mhob tri yn byw mewn tldi yng Nghymru, mae Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i fwynhau gwyliau haf.

Bydd eich cyfraniad yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau bythgofiadwy i blant yn un o Wersylloedd Haf yr Urdd.

Bydd rhodd o £220 yn cyfrannu at weithgareddau, trafniadaeth, llety, a bwyd i un plentyn yn un o wersylloedd haf yr Urdd. Drwy roi rhodd byddwch yn derbyn bathodyn pin arbennig a cherdyn post o'r gweryll haf.

Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad, fawr neu fach.

"Rydym mor ddiolchgar i'r gronfa am alluogi fy mab i gymryd rhan mewn gweithgareddau bendigedig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch ddiogel. Roedd yn wên o glust i glust trwy gydol gweddill y gwyliau."

- GOFALWR MAETH

Sut i wneud cyfraniad:

- Gwefan yr Urdd: urdd.cymru/cronfa
- Anfon sic eic yn daliadwy i Urdd Gobaith Cymru
- Ffonio gweryll Llangrannog ar 01239 652140



Cyfrannwch heddiw



Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS]
(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Rhagfyr 2024:

1 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
8 – “*Carol a Choffi a Chân*” yng
nghwmni Sian Meinir (4:00 p.m.)
15 – Oedfa 9 Llith a Charol (5:00 p.m.)
22 – Nadolig yr Ysgol Sul
25 – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00
a.m.)
29 – DIM OEDFA

Mis Ionawr 2024:

5 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
12 – Plygain (4:00 p.m.)
19 – Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil
John
26 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert
Owen Griffiths

---oooOOOooo---

Wn i ddim faint ohonoch sydd yn darllen
penawdau papurau newyddion o
wledydd tramor ar-lein?

Wrth neidio o bapur i bapur a
gyhoeddir yn yr Unol Daleithiau yn
ddiweddar, deuthum ar draws erthygl yn
y “Washington Post” yn nodi
marwolaeth gwr o'r enw Elwood Hughes
Edwards Jr. yng Ngogledd Carolina, ar
y 5ed o Dachwedd, ddiwrnod yn unig
cyn ei benblwydd yn 75 mlwydd oed.

Nid oeddwn erioed wedi clywed
amdano o'r blaen – ac heblaw y chwilen
o feddwl tybed a oedd o dras Cymreig
(siawns da ei fod gyda'r cyfenwau yna?),
fyddwn innau heb drafferthu i ddarllen yr
ysgrif goffa amdano. [Mae “Edwards” yn
ôl un tabl a welais, yn gyfenw ‘rhif 58
mwyaf cyffredin’ yn yr Unol Daleithiau!
Yn y pump uchaf dowch o hyd i
Williams a Jones!]

Ganed Elwood yn Glen Burnie,
Maryland, ar y 6ed o Dachwedd 1949, ac
ef oedd yr hynaf o dri o blant y teulu.

‘Roedd ei dad yn aelod o fyddin yr
Unol Daleithiau a oroesodd yr Ail Ryfel
Byd. Roedd yn chwarae'r trombôn mewn
band milwrol, a bu, gyda chymorth ei
wraig, yn cadw busnes tiwnio pianos
wedi ymdeol.

Yn ei ddyddiau ysgol uwchradd yn
New Bern, Gogledd Carolina,
dechreuodd Elwood ymddiddori yn y
byd darlledu, gan ddechrau gyda radio,
cyn ymestyn ei ddiddordeb i fyd teledu
ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach.

Bu'n darlledu rhagolygon tywydd am
beth amser, cyn iddo benderfynnu mai tu
ôl i'r camerau yr oedd ei bleser mwyaf,
ynghanol byd y golygyddion a'r
technegwyr eraill.

Bu hefyd yn gyhoeddwr ac yn lleisio

hysbysebion, gan gydnabod mewn
cyfweiliad gyda'r “Cleveland Plain
Dealer” yn 1999 mai ei lais oedd ei ased
gorau, er y dymunai iddo fod “*yn llais
dyfnach na'r hyn a roddwyd iddo*”.

Bu'n gweithio yn nhaleithiau Gogledd
Carolina, Ohio, Texas a Washington yn
ystod ei yrfa ddarlledu, ond yn ogystal,
am gyfnod byr, bu'n weinidog gyda'r
Bedyddwyr!

Fe ymdeolodd yn 2014, ond aeth yn
ôl am gyfnod wedi hynny i'r orsaf
ddarlledu gyntaf yn New Bern, gan
weithio hyd at ddwy flynedd cyn ei
farwolaeth – “*nid gwaith oedd hynny
ond ffordd o ymestyn fy mywyd*” meddai
mewn cyfweiliad.

Bu'n briod ddwywaith, â Betsy
Fulcher a Karen Adams, a ganed dwy
ferch o'r briodas gyntaf.

Fe gytunech, dwi'n siwr, mai go brin y
byddai'r Washington Post wedi rhoi
gofod i goffad i Elwood Hughes
Edwards ar sail yr uchod yn unig?!

Na, mae mwy i'r stori na hynny!

Yr hyn a'i dygodd i amlygrwydd oedd
mai ef oedd y llais ar wasanaethau
rhyngwyrdd AOL, o 1989 ymlaen, yn
cyhoeddi fod yna e-bost wedi cyrraedd –
“*You've got mail!*”!

Neges dwy eiliad oes y “dot-com”!

“*Gobeithio y byddant yn meddwl
amdanaf fel dyn post – fel rhywun sy'n
dod a rhywbeth arbennig iddynt.*”

Ei ail wraig, Karen, gynnigiodd ei
wasanaeth yn y lle cyntaf, er nad oes
sicrwydd pwy oedd wedi awgrymu'r
cymal iddo ei ynganu.

Roedd hi'n gweithio fel swyddog
cwsmeriaid i Quantum Computer
Services, rhagflaenydd cwmni AOL, a
chlywodd bennaethiaid y cwmni yn trafod
y syniad o gynnwys neges, mewn llais
cysurlon, o fewn eu meddalwedd.

Yn 'stafell fyw ei gartref yng
Ngogledd Virginia, eisteddodd Elwood
gyda'i beiriant *cassette*, ac aeth ati i
ynganu nifer o gymalau gwahanol, yn
cynnwys “*Welcome*”, “*file's done*” a
“*goodbye*” ynghyd a'r enwog “*you've
got mail!*”.

Bu'r cyfan yn llwyddiant a chafodd
\$200 am ei drafferthion gan AOL.

Tyfodd y cwmni yn aruthrol dros y
degawd nesaf, ac erbyn canol y '90au,
roedd ei lais yn cael ei glywed mwy na
35 miliwn gwaith y dydd!

Yn 1998 rhyddhawyd ffilm (*rom-com*)
gyda Tom Hanks a Meg Ryan o'r enw
“*You've Got Mail*” yn adrodd stori garu
ddigidol drwy gyfrwng e-bost!

Ac er nad ffilm amdanynt hwy oedd
hon, na bod “*online dating*” wedi
amlygu ei hun bryd hynny, cydnabu
Elwood ei fod ef a Karen wedi cynnal eu
carwiaeth hwythau trwy fyd y
cyfrifiaduron, gan gyfnwid llwon
priadod rhithwir cyn eu priodas
gyfreithiol.

Yn dilyn rhyddhau'r ffilm,
ymddangosodd Elwood ar nifer o



Gwasanaeth tân

Diolch i'r gwasanaeth tân am ddod i
siarad gyda'r plant am y peryglon a sut i
gadw'n ddiogel.

Plant Mewn Angen

Diolch i bawb a gyfranodd i'r achos
Plant Mewn Angen yn ystod mis
Tachwedd. Gwerthodd y Cyngor Ysgol
yr holl nwyddau Pudsey ac fe gafwyd
ddiwrnod o hwyl yn y dosbarth yn
gwneud gweithgareddau amrywiol.

Y Nadolig

Roedd ffair Nadolig cyntaf Ysgol Awel
Taf yn llwyddiant enfawr! Codwyd dros
dwy fil o bunnoedd! Diolch i Ffrindiau
Awel Taf am drefnu ac i bawb am
geflogi.

Cynhaliwyd gweithdy creu torch
Nadolig gan y cwmni Milddail ar
ddechrau mis Rhagfyr. Roedd y neuadd
yn llawn wrth i bawb gymdeithasu a
chreu'r torch. Diolch eto i Ffrindiau am
drefnu'r noson.

Mae'r plant ar draws yr ysgol wedi bod
yn brysur iawn yn ymarfer eu sioeau
Nadolig yn ddiweddar. Maent nawr yn
gyffrous i berfformio o flaen eu
teuluoedd!

raglenni teledu, ac yn 2000 cafodd ei lais
ei gynnwys mewn ymddangosiad cameo
fel meddyg ar un o raglenni'r Simpsons
("Little Big Mom") yn yngan y cymal
“*You've got leprosy!*”!

Bu'r “plismyn iaith” yn creu amheuan
am gywirdeb gramadegol y cymal
gwreiddiol, a chytunai Elwood i raddau
a'u barn, ond nid ildiodd!

A ninnau ar drothwy'r Nadolig, ein
deisyf a'n gobaith yw mai geiriau
cyfarwydd eraill a ddaw i'n clust – ond
bydd yn rhaid i ni wneud lle yn y llety i
ddechrau er sicrhau hynny!

“*Peidiwch ac ofni, oherwydd yr wyf yn
cyhoeddi i chwi y newydd da am
lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl;
ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd,
Waredwr, yr hwn yw'r Meseia.*” [Luc 2:
10-11]

“*Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac
ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai
sydd wrth ei fodd*” [Luc 2: 14]

“*A daeth y Gair yn gnawd a
phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a
gwirionedd...*” [Ioan 1:14]

Nadolig Llawen i bobl pob Bethlehem
ymhob cwr o'r byd, a diolch i Tafod Elái
am y gofod i droi gair yn gymalau, a
chymalau yn frawddegau, ger eich bron
o fis i fis.

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Gwilym Huws

Campus Tomi

Llongyfarchiadau i Tomi Booth, Edwardian Drive, Meisgyn, maswr gyda thîm Rygbi Prifysgol Caerdydd, ar ei gyfraniad i Ymgyrch Movember. Mae Tomi'n disgleirio ar y maes chwarae, ond mae e hefyd yn aelod gweithgar o'r grŵp o chwaraewyr y clwb sy'n serennu gyda'u cefnogaeth ysbrydoledig i Ymgyrch Movember, sef mudiad a sefydlwyd gan ddau gyfaill o Awstralia yn 2003 i gynorthwyo rhai sy'n cuddio'u teimladau. Mewn erthygl a ymddangosodd ar safle *Cymru Fyw* ar 23 Tachwedd, adroddwyd i'r clwb lwyddo i godi £33,000 y llynedd tuag at Ymgyrch Movember – y swm uchaf trwy Brydain – a'u nod yw dod i'r brig unwaith eto eleni am y drydedd flwyddyn o'r bron. Trwy gynnal cyfres o weithgareddau diddorol, megis taith noddedig i gopa Pen-y-fan, mae Tomi o'r farn fod hyn yn ffordd hynod effeithiol o godi ymwybyddiaeth o'r Ymgyrch bwysig hon.



Croesawu Wyres

Llongyfarchiadau i Glenys Griffiths, Llanharan, Pontyclun, ar enedigaeth wyres fach ar 22 Hydref. Mae Cadi Haf yn blentyn cyntaf i Dewi a Hannah Griffiths sy'n byw yn y Beddau. Pob dymuniad da i Nain ac i'r teulu bach.



Cymuned yn Cofio

Mae trigolion y Groes-faen, a theithwyr drwy'r pentre, yn hen gyfarwydd â gweld arddangosfeydd lliwgar ar wahanol adegau o'r flwyddyn i ddathlu Gwyliau neu achlysuron arbennig. Yn ôl yr arfer, ar ddechrau mis Tachwedd gwelwyd casgliadau o babïau coch ar hyd y ffordd fawr. Eleni, fodd bynnag, ar wahân i'r arddangosfa flynyddol, aethpwyd ati i lunio cofeb weladwy a pharhaol i'r rhai a gollodd eu bywydau yn y gwahanol ryfeloedd. Paentiwyd y tu mewn i'r lloches bws yn greffus eithriadol gan Claire Danvers, yr artist dawnus o Bontyclun, gyda lluniau hardd o'r pabïau coch yn harddu'r waliau. Diolch i Gyngor Cymuned Pontyclun, a Groes-faen Gwyrdd, ynghyd â gwirfoddolwyr lleol, fu'n gyfrifol am y gwaith.



Croeso Cynnes

Ym mis Gorffennaf symudodd Eilir a Cynwyl Davies o'r gorllewin i'w cartref newydd yn Crystal Wood Drive, Meisgyn. Er iddynt dreulio dros ddeugain mlynedd yn byw ym Mhwill-trap ar bwys Sanclêr, roeddynt eisoes yn gyfarwydd â'r pentref gan fod eu merch, Non, a'i theulu'n byw yn yr ardal. Maent eisoes wedi setlo'n dda yn ein plith a chawsant eu derbyn yn aelodau yn eglwys y Tabernacl, Efail Isaf, ar fore Sul cyntaf mis Rhagfyr. Estynnwn ninnau, drigolion Meisgyn – er yn hwyrfrydig – groeso yr un mor gynnes iddynt i'n plith.

Canu i Godi Arian

Nos Sadwrn, 30 Tachwedd, fe deithiodd Côr Tadau Trisant i Benrhyn Gŵyr i ganu mewn cyngerdd yn eglwys St Peter's i godi arian i'r elusen leol 2Wish Cymru. Yn rhannu'r llwyfan gyda'r côr ar y noson roedd côr 'Choirs for Good', yr unawdydd o Abertawe, Lisa Marie Williams, a'r canwr a'r darlledydd amryddawn Mal Pope.



Gwelliannau Ffordd

O'r diwedd, mae'r gwaith o osod goleuadau traffig newydd ar briffordd yr A4119 yng Nghroes Mwyndy, Meisgyn, wedi ei gwblhau. Dechreuwyd ar y gwaith yn gynnar yn y gwanwyn a'i gwblhau ddiwedd mis Hydref. Ar waethaf y rhwystredigaeth fod y gwaith wedi llusgo ymlaen cyhyd, nawr mae'r cyfan wedi ei gwblhau mae trigolion yr ardal yn gwerthfawrogi'r gwelliant mawr sydd wedi dod yn ei sgil, yn arbennig oherwydd bod y gwaith wedi hen ddechrau ar ddatblygu stad o 460 o dai newydd ar bwys stad tai Cefn yr Hendy.

Llongyfarchiadau

Estynnwn ein dymuniadau gorau i dîm rygbi ieuencid Llantrisant ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Ieuencid Cynghreiriaau 1 a 2 yn dilyn eu buddugoliaeth ddiweddar o 33 pwynt i 12 yn erbyn tîm Pontyclun yn y rownd gynderfynol. Llanilltud Faerdref fydd eu gwrthwynebwyr yn y rownd derfynol a gynhelir ym Mharc yr Arfau ddydd Sadwrn 21 Rhagfyr. Pob lwc, bois!



Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Sul y Cofio

Daeth disgyblion a'u teuluoedd ynghyd ym Mharc Ynysangharad i fynychu gwasanaeth Sul y Cofio. Roedd cyfle i gymryd rhan yn yr orymdaith cyn mynd i'r gwasanaeth. Diolch am y gwahoddiad.



Arweinwyr Digidol

Mae'r Arweinwyr Digidol wedi bod yn brysur yn rhannu eu gweledigaeth a'u targedau ar gyfer y flwyddyn gyda'r ysgol. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda disgyblion eraill o'r ardal leol i wrando a rhannu syniadau.



Ffair Nadolig

Roedd yr ysgol yn llawn bwrllwm a chyffro ar ddiwrnod ein ffair Nadolig eleni. Braff cael gweld cymaint o gyn-ddisgyblion yn dod yn ôl i gefnogi'r ysgol hefyd.

Tlws ar y Drws

Daeth rhieni a gwarchodwyr o gymuned yr ysgol at ei gilydd i weithdy creu 'Tlws ar y Drws' yr ysgol. Roedd y gweithdy yn un llwyddiannus iawn ac yn ddechreuad hyfryd i ddathliadau'r Nadolig.

Perfformio gyda Vri yn y Muni

Perfformiodd dosbarth Blodeuwedd gyda'r triawd siambr enwog VRi ar gyfer cyngerdd arbennig iawn i ddathlu ail-agoriad y lleoliad hanesyddol hwn. Roedd y plant yn wych! Diolch yn fawr iawn i VRi am helpu'r plant i gyfansoddi caneuon arbennig. Hoffem hefyd ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi ar y noson.



Menter Caerdydd



Bu criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg ar daith i Gaernarfon yn ddiweddar ar gyfer Seremoni Wobrwyo Mentrau Iaith Cymru. Roedd y noson yn gyfle i staff o'r 22 menter iaith drwy Gymru ddod at ei gilydd i ddathlu llwyddiannau a thrafod prosiectau'r dyfodol. Dewiswyd pum prosiect o ragoriaeth gan y beirniaid gan gynnwys cynllun 'Yn Cyflwyno' Menter Caerdydd a gafodd ei wobrwyo am "annog disgyblion ysgolion lleol i gychwyn bandiau Cymraeg, gan gynnig sesiynau mentora a chyfleoedd i berfformio". Mae'r cynllun wedi meithrin talent nifer o fandiau ifanc dros y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys Ble, Dadleoli a Taran. Edrychwn ymlaen at weld to newydd o fandiau yn creu cerddoriaeth a chynnwrf yn 2025!

Er bod 2024 yn prysur ddirwyn i ben, bydd ein gweithgareddau'n parhau hyd y Nadolig. Beth am ymuno â ni i ddathlu'r Wyl? Dyma flas ar arlwy mis Rhagfyr:

Siaradwyr Newydd:

Bore Gwener, 6 Rhagfyr – cyfle i ddathlu'r Nadolig a chanu carolau yn Sain Ffagan mewn digwyddiad ar y cyd rhwng Menter Caerdydd, Dysgu Cymraeg Caerdydd a'r Amgueddfa. 10.00-12.00, am ddim.

Bore Gwener, 20 Rhagfyr – cyfle i sgwrsio ar Zoom. 10.30-11.30, am ddim. Cofiwch hefyd am y sesiynau sgwrsio rhad ac am ddim yn Hyb Rhydpennau – bore Iau, 5 a 19 Rhagfyr, 10.30-11.30 a'r Llyfrgell Ganolog – prynhawn Iau, 5 Rhagfyr, 3.00-4.00.

Mewn Tiwn

Cynhelir ein cyngerdd Nadolig flynyddol yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina fore Llundun, 16 Rhagfyr. Eleni, Trystan a Siân Francis fydd yn ein diddanu gyda gwledd o gerddoriaeth Nadoligaidd. Bydd y drysau ar agor o 11.15 i chi fwynhau paned a

sgwrs o flaen llaw. Dewch yn gynnar a byddwch yn barod i ganu! Mae'r gyngerdd yn rhad ac am ddim ond byddem yn croesawu cyfraniadau ar y diwrnod. Gallwch hefyd gyfrannu drwy brynu tocyn i'r gyngerdd ar ein gwefan.

Digwyddiadau i blant bach a'u teuluoedd

Ydych chi wedi trefnu dod â'r rhai bach i weld Siôn Corn? Bydd y dyn ei hun yn ymweld â'r Hen Lyfrgell ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr. Mae dal rhai llefydd ar gael felly ewch i'r wefan i sicrhau eich lle! mentercaerdydd.cymru/cy/rhiant-a-phlentyn
Draw ym Mro Morgannwg, bydd Siôn Corn yn ymweld ag Amser Stori yn Llyfrgell Llanilltud Fawr am 10.00 ar fore Iau, 12 Rhagfyr. Y diwrnod canlynol, bydd digon o ganu a dawnsio yng nghwmni Do Re Mi mewn Parti Nadolig hwyliog yng Nghanolfan Palmerston ar y cyd â Dysgu Cymraeg y Fro. Does dim angen cofrestru - ewch draw i ymuno yn yr hwyl brynhawn Gwener, 13 Rhagfyr am 4.00 y prynhawn.

Ioga Beichiogrwydd

Ar brynhawn Gwener, 13 Rhagfyr, bydd Kate Griffiths yn cynnal sesiwn blasu ioga ar gyfer mamau beichiog yn yr Hyb yn Grangetown am 4.45-5.45yp. Pris: £7. Cynhelir cwrs newydd ar nosweithiau Mawrth yn y flwyddyn newydd.

2025 – Cadwch y Dyddiad!

Dr Osian Elias fydd siaradwr cyntaf Sgwrs y Mis 2025 ar nos Iau, 16 Ionawr. **Pop Up Gaeltacht - siarad Gwyddeleg yn y ddinas** fydd teitl y sgwrs a bydd Osian yn trafod sefydlu a chynnal sesiynau sgwrsio yn Nulyn gan gymharu hyn ag ymdrechion yng Nghymru i sefydlu grwpiau Cymraeg.

Laffwyl 2025 – Nos Iau, 30 Ionawr fydd digwyddiad cynta'r flwyddyn!

Dau gwrs ar Zoom:

Merch, Aderyn a Bedwen: Byd Dafydd ap Gwilym yng nghwmni Dr Sara Elin Roberts – Nosweithiau Llundun, 3, 10 a 17 Chwefror

Cofio Dewi ar hyd yr oesoedd: golwg ar y ddelwedd o Dewi Sant yn ein hanes – Nosweithiau Llundun, 3, 10 a 17 Mawrth

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Hoffai staff Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg ddiolch i bawb sydd wedi mynychu ein cyrsiau ac amryw weithgareddau yn ystod 2024. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Edrychwn ymlaen at eich gweld chi eto y flwyddyn nesaf!

Bardd y Gadair Eisteddfod y Rhondda (Parhad o dudalen 1)

Roedd hi'n arfer gwneud tipyn o sgrifennu creadigol, hynny yw straeon byrion, monologau a cherddi, pan oedd yn iau ond heb wneud unrhyw sgrifennu creadigol ers tua 15 mlynedd. Y gerdd ar gyfer Eisteddfod y Rhondda oedd y gerdd gyntaf iddi ei hysgrifennu mewn amser maith.

'Mi oeddwn i awydd ailgychwyn ar y sgrifennu ers peth amser,' meddai Megan, 'ac wedi cael golwg ar y testunau. Penderfynais fod y testun yn apelio, yn enwedig a hithau'n eisteddfod leol i mi. Roedd 'na syniad wedi bod yn troi yn fy mhen ers misoedd wedi i mi weld stori ar wefan y BBC am fabi yn Swydd Efrog yn cael ei gladdu yn yr un arch â dieithryn yn ystod Streic y Glowyr oherwydd nad oedd ei deulu'n gallu fforddio talu am angladd. Felly, wedi cryn fyfyrto, dyma fynd ati i sgrifennu.' Dywedodd nad oedd hi'n disgwyl ennill.

'Siopa Nadolig'

'Gyda'r Nadolig ar ei ffordd, a'r rhestr anrhegion yn tyfu bob blwyddyn, mi fydda i'n gwario'r can bunt ar siopa Nadolig ar gyfer teulu a ffrindiau,' meddai.

Yn aml, mae Megan yn cael ei hysbrydoli gan hanes, digwyddiadau go iawn a straeon pobl go iawn. A hithau'n ddeugain mlynedd ers Streic y Glowyr, roedd hi'n naturiol iddi feddwl am syniadau'n ymwneud â'r cyfnod hwnnw wrth chwilio am ysbrydoliaeth a meddwl am syniadau am y gerdd.

A'i hoff feirdd? 'Rydwn i'n hoff iawn o farddoniaeth Gerallt Lloyd Owen a T H Parry-Williams a hefyd yn hoffi casgliadau fel *Hoff Gerddi Cymru* a *Cerddi Arfon* er mwyn cael cyfle i ddarllen cerddi amrywiaeth o feirdd. Tydw i ddim yn tueddu i ddarllen llawer o farddoniaeth gyfoes felly bydd rhaid i mi wneud mwy o ymdrech gyda hynny.'

MH

VERSUS ARTHRITIS GRŴP CYMORTH

Grŵp Cymraeg AR-LEIN
(11yb - 12.30yp) trwy Teams
Dydd Iau 1af bob mis

Mae ein cyfarfodydd grŵp cymorth yn rhad ac am ddim ac yn agored i bob oedolyn sydd ag arthrits neu gyflwr MSK. Dewch i rannu profiadau ac awgrymiadau, gwneud ffrindiau newydd a rhoi cynnig ar weithgareddau. Croeso i bawb!

Cysylltwch: walessupport@versusarthritis.org

CYMRU
VERSUS
ARTHRITIS



£12

Merch, Aderyn a Bedwen: Byd Dafydd ap Gwilym

Nosweithiau Llundun
3, 10, 17 Chwefror
7.30yh ar Zoom

Cyfle i fwrw golwg ar rai o gerddi bardd Cymraeg mwyaf yr Oesoedd Canol yng nghwmni Dr Sara Elin Roberts.

mentercaerdydd.cymru/oedolion
rachel@mentercaerdydd.cymru

MC - Rhif Eiddo 1030930, Rhif Cwmni 4376202
MSN - Rhif Eiddo 875255, Rhif Cwmni 02807706

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: [@m.c.aerdydd](https://www.facebook.com/m.c.aerdydd)
Instagram: [@mentercaerdydd](https://www.instagram.com/mentercaerdydd)
E-bost: post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888

Ysgol Creigiau

Twrnaint Pêl-droed yr Urdd

Cystadlodd dau dîm pêl-droed merched Blwyddyn 5 a 6 ac un tîm pêl-droed cymysg Blwyddyn 4 yn Nhwrnaint Pêl-droed yr Urdd ar Gampws Chwaraeon Rhyngwladol Leckwith, Caerdydd. Fe chwaraeon nhw i gyd yn wych gyda Thîm A y Merched yn ennill eu grŵp heb ildio gôl. Yn anffodus fe gollon nhw ar ôl ciciau o'r smotyn ar ôl amser ychwanegol yn rownd yr wyth olaf. Rydyn ni'n hynod falch ohonyn nhw i gyd. Diolch yn fawr i Mrs Hussey, Mr Williams a Mr Snell am fynd â'r disgyblion ac am eu hyfforddi. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni am eu cefnogaeth hefyd.



Tim Pel-droed Cymysg Blwyddyn 3 a 4



Tim Merched Blwyddyn 5 a 6

Diwrnod y Cofio

Ar yr 11eg o Dachwedd aethom ni i gyd allan ar yr iard yn yr heulwen i gynnal gwasanaeth Diwrnod y Cofio. Wyth disgybl o Flwyddyn 6 oedd yn arwain y gwasanaeth. Eglurodd Caitlyn, Eiry, Lucas, Layla, Sophie, Nel, Isla a Math bwysigrwydd Diwrnod y Cofio a chwaraeodd Ollie y 'Last Post' yn fendigedig ar y trombôn. Yna, arsylwon ni ddau funud o dawelwch. Roedd pob un o'r disgyblion wedi sefyll yn barchus i gofio am eraill - roeddem yn falch iawn ohonynt.



Dangos Parch ar Ddiwrnod y Cofio



Llwyddiant yn Ras Traws Gwlad yr Urdd

Ras Traws Gwlad yr Urdd

Aeth 12 o ddisgyblion yr ysgol i gystadlu yng nghystaddeuaeth Traws Gwlad yr Urdd ar Gaeau Llandaf, Pontcanna. Rhedodd Robin, Monika, Bethan, Spencer, Noah, Lewis, Gruff, Tristan, Gwilym, Tina, Martha a Tom yn wych gyda Robin yn dod yn drydydd yn y ras i fechgyn Blwyddyn 5 a 6. Ardderchog bawb!

Ynadon yn y Gymuned

Ymwelodd pedwar o ynadon â'n disgyblion Blwyddyn 6 i roi cyflwyniad am eu rôl hynod bwysig ynghyd â'r system droseddol a chyfiawnder sifil. Dysgodd y disgyblion am y system gyfreithiol ac am eu llys lleol mewn ffordd hwyliog ac addysgiadol drwy ail-greu ffug dreial ar Seiberfwlio. Wrth iddyn nhw gymryd rhan, fe ddysgon nhw'r negeseuon pwysig am ganlyniadau difrifol Seiberfwlio yn ogystal â'r effaith niweidiol mae'n ei gael ar y dioddefwr.

Wythnos Gwrth-Fwlio

Yn ystod Wythnos Gwrth-fwlio fe wisgon ni sanau od i'r ysgol i ddathlu ein bod i gyd yn unigryw a gwahanol. Thema'r wythnos eleni yw 'Dewiswch Barch'. Nod yr Wythnos Gwrth-fwlio yw anfon neges glir a chadarnhaol nad yw bwlio yn dderbyniol yn ein hysgolion a'n cymunedau. Trwy gydol yr wythnos bu'r disgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau a gwersi a oedd yn briodol i'w hoedran.

Plant Mewn Angen

Dathlon ni 'Plant mewn Angen' drwy wisgo dillad Ymarfer Corff smotiog a lliwgar i'r ysgol. Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a sbri! Bu pob dosbarth allan ar yr



Mwynhau ar ddiwrnod Plant Mewn Angen!



Dosbarth 2 yn mwynhau ar ddiwrnod Plant mewn Angen!

iard yn cymryd rhan yn sialens 'runPudsey'! Codwyd £529.40 – diolch i bawb am eu cyfraniadau!

Ymweliad Blwyddyn 3 â Chaerllion

Ymwelodd disgyblion Dosbarth 3 a Class 3 ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Cymeron nhw ran mewn gweithdy chwarae rôl a mwynheun nhw ymweld â'r Amffitheatr, Barics a'r Baddonau Rhufeinig. Roedd eu hymddygiad yn wych trwy gydol yr ymweliad - da iawn Blwyddyn 3.



Dosbarth 3 yn mwynhau yng Nghaerllion



Ymladdwyr Rhufeinig Brawychus!

Noson Greu Torchau Nadolig

Trefnodd Cyfeillion yr Ysgol Noson Greu Torchau Nadolig yn neuadd yr ysgol. Roedd hi'n noson lwyddiannus iawn. Diolch o galon i Heledd o Milddail am rannu ei harbenigedd gyda'r grŵp. Codwyd £294 i'r ysgol...diolch!



Noson Greu Torchau Nadolig

Ysgol Llanhari



Grease yw'r Gair

Mae Adran y Celfyddydau Perfformio wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn yn paratoi a llwyfannu sioe Grease. Roedd hi'n bleser gwahodd disgyblion yr ysgolion clwstwr i fwynhau y perfformiad cyntaf ac roedd y neuadd yn orlawn ar gyfer y tri pherfformiad i'r cyhoedd ar ddiwedd mis Hydref. Braff oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn rhan o'r cynhyrchiad, o flwyddyn 5 i flwyddyn 13, yn actorion, yn aelodau o'r band ac yn griw goleuo a chefn llwyfan. Roedd y paratoadau wedi dechrau yn ystod misoedd yr haf a hyfryd oedd gwahodd Siwan Henderson, cyn ddisgybl, i ddod atom ni i rannu ei phrofiad a chynnig arweiniad. Mae ein diolch yn fawr hefyd i Miss Isabel Jones am hyfforddi'r dawnsio a oedd yn rhan allweddol o lwyddiant y sioe. Diolch i'r holl ddisgyblion am roi o'u gorau ym mhob perfformiad.



Gweithdy Only Boys Aloud

Diolch i aelodau o elusen Aloud Cymru am ddod i gynnal gweithdy i holl fechgyn blwyddyn 7 ym mis Medi. Roedd y neuadd yn llawn bwrlwm wrth i'r disgyblion gael cyfle i chwarae gemau, gwneud ymarferion lleisiol a pherfformio.



Cerddorfa Ysgolion Cymraeg y De Ddwyrain

Ym mis Tachwedd cynhaliwyd perfformiad Cerddorfa Ysgolion Cymraeg y De Ddwyrain yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Dyma'r ail flwyddyn yn hanes y gerddorfa a braff oedd gweld Daniel Davies a Zoe Harwood o flwyddyn 8 a Molly Wheel o flwyddyn 7 yn cynryd rhan. Roedd y repertoire yn cynnwys Jupiter gan Holst, Thema Aladdin, New York, New York, Thema The Lion King ac Ymdeithgan Radetzky gan Strauss.



Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Gruffydd Morris o flwyddyn 9 ar ei lwyddiant yn Eisteddfod y Rhondda yn ddiweddar!



Croesawu dau Brifardd

Trefnwyd dau wasanaeth arbennig iawn ym mis Tachwedd. Y Prifardd Gwynfor Dafydd oedd y gwestai yn y gwasanaeth i flynyddoedd 10-13 a hyfryd oedd datlu ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac ail-fyw ei daith o ennill ei wobr lenyddol gyntaf ym M1.8 hyd at gipio'r Goron. Mawr yw ein diolch hefyd iddo am roi sesiwn baratoi ac anogaeth i griw Talwrn Bl.12 a 13 cyn iddyn nhw anelu am Lanlllyn.

Yn yr un modd, cawsom fore i'w gofio wrth i ni estyn croeso cynnes hefyd i'r Prifardd Carwyn Eckley atom. Diolch i griw blwyddyn 10 am ein hatgoffa o'r daith hyfryd gawsom wrth noddi'r Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac o'r holl brofiadau gwerthfawr. Hyfryd oedd cael dangos ambell symbol neu ddelwedd newydd i Carwyn ar y Gadair wedi i ni ail-fyw rhan o'r seremoni yn ei gwmmi a'i longyfarch. Yna, fe dreuliodd wers yng nghwmni criw o ddisgyblion Bl.9 yn llunio cerdd i ddatlu 50 Llanhari. Cofiwch wrando ar bodlediad Llwybrau Llanhari i glywed penodau hyfryd yng nghwmni'r ddau Brifardd.



Sioe Hamilton

Ar ddechrau mis Rhagfyr aeth criw brwd o ddisgyblion TGAU Drama a Cherddoriaeth i Ganolfan Mileniwm Cymru i wylïo perfformiad o sioe Hamilton. Yn ogystal â gwylïo, cawsant gyfle i fod yn rhan o sesiwn holi ac ateb gydag aelodau o'r cast a thaith cefn llwyfan. Profiad bythgofiadwy.



Mwynhau yn y Panto

Cafwyd digon o chwerrthin a gweiddi wrth i ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 fwynhau taith i weld panto Culhwch ac Olwen yn y Barri ym mis Tachwedd.



Ysgol Llanhari (Parhad)

Glanllyn

Mwynhaodd disgyblion blwyddyn 12 a 13 dridiau yng Ngwersyll Glanllyn ar gwrs Prifysgol Cymru Bangor gan fwynhau darlithoedd a sesiynau di-ri yng nghwmni darlithwyr y Brifysgol, beirdd a llenorion o fri a bu i FL12 fwynhau taith i'r Ysgwrn cyn astudio'r ffilm.

Llwybrau Llanhari 'Dathlu'r Aur'

Fel rhan o ddathliadau'r ysgol yn 50 oed eleni, mae'r Adran Gymraeg wedi bod yn brysur yn paratoi casgliad o bodlediadau sy'n adrodd hynt a helyntion cyn-ddisgyblion, staff ac athrawon yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion wedi bod yn rhan o'r holi ac mae modd gwrandawr drwy lwyfannau Apple, Spotify, Amazon, You Tube neu unrhyw lwyfan podlediadau. Mae'r gwsteion yn cynnwys; yr Archdderwydd Brifardd Mererid Hopwood, Geraint Rees, Mrs Rhian Rapsey, Jordan Morgan-Hughes, Shelley Rees-Owen, y cynbennaeth Mr Peter Griffiths a gwyh oedd medru cynnig cyfle i ddisgyblion presennol holi tri o brif enillwyr llenyddol y flwyddyn a dathlu bod y ddau Brifardd newydd ac enillydd Llyfr y Flwyddyn 2024, Mari George, yn aelodau o Deulu Llanhari! Byddwn hefyd yn rhyddhau pennod arbennig cyn y Nadolig – sef pennod a recordiwyd ar faes yr Eisteddfod yng nghwmni Catrin Heledd a Sara Eysyllt yn arwain y holi. Dilynwch, gwrandewch, mwynhewch!



Sgriblwyr Cymraeg

Mwynhaodd criw o ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 ddiwrnod creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd yn ddiweddar yng nghwmni Siôn Tomos Owen, Anni Llŷn, aelodau o Adran Gymraeg y Brifysgol a Leila Navabi.



Cwrs anwytho blwyddyn 7

Aeth blwyddyn 7 ar gwrs anwytho ar ddechrau'r tymor i Manor Adventure i fwynhau gweithgareddau awyr agored a dod i adnabod ei gilydd. Diolch i Mr Rivers am atgoffa'r disgyblion am bacio digon o ddillad sych!



Taith i'r Amgueddfa

Aeth disgyblion sy'n astudio Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol Celf a Dylunio i Amgueddfa Caerdydd er mwyn gwneud ymchwil llaw gyntaf ar gyfer eu hunedau gwaith cwrs. Gwelwyd arddangosfa 'Selfie' gan gynnwys hunan bortread Van Gogh, ynghyd â chelf gyfoes Gymreig yn archwilio'r syniad o hunan ddelwedd. Roedd cyfle hefyd i ymweld ag arddangosfa 'Streic' a'r 'Cymoedd.' Braf bydd weld ffrwyth eu hymchwil yn eu gwaith creadigol.



Dinasyddion egwyddorol a gwybodus

Diolch i Mrs Webb am drefnu taith i ddisgyblion blwyddyn 7 i Ganolfan Ail-gylchu a Gwastraff Bryn Pica yn ystod y tymor lle



dysgwyd am sut mae rheoli gwastraff a phrosesau ail-gylchu.



Helpu'r Gymuned

Mae'r ysgol wedi bod yn brysur yn casglu nwyddau ar gyfer y banc bwyd lleol. Cyflwynwyd gwerth 176.8 kg o nwyddau gan aelodau o'r Cyngor Ysgol i fanc bwyd Taf ac Elai. Diolch i bawb a gyfrannodd.



Gwaith Elusennol

Llongyfarchiadau i Mr Tim Edwards ar ei gamp ddiweddar yn dringo i Everest Base Camp yn yr Himalayas, Nepal fel rhan o dîm i godi arian ar gyfer elusen 2wish a 2wish Cymru. Mae'r elusen yn cefnogi pobl sydd wedi dioddef profedigaeth colli plentyn neu berson ifanc. Codwyd dros £50,000 ar gyfer yr elusen teilwng hwn.



Elusen Macmillan

Diolch i ddisgyblion bl 12 a 13 am drefnu bore coffi a gwerthiant cacennau i godi arian tuag at yr elusen.



Adran Ieithoedd Rhyngwladol

Bu'r hanner tymor cyntaf yn brysur iawn yn yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol. Cawson ddathliad Diwrnod Ieithoedd Ewrop llwyddiannus ar ddiwedd mis Medi.

Gwynfor Dafydd



Shelley Rees-Owen



Jordan Morgan-Hughes



Mr Peter Griffiths



Ysgol Llanhari (Parhad)

Gwisgodd Blwyddyn 7-9 mewn lliwiau Ewrop ac roedd sgiliau creadigrwydd ar ei gorau yn y gystadleuaeth ar gyfer Blwyddyn 7 i 8.

Rhai dyddiau yn ddiweddarach aeth 78 o ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 ar daith i Normandi. Arhosom yn Château du Baffy a chawsom hwyl yn ymweld â Mont St Michel, marchnadoedd lleol a'r fferm caws gafr. Ymwelsom â'r traethau a'r fynwent Ail Ryfel Byd yn Bayeux. Cafodd pawb brofiadau bythgofiadwy yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol. Mae'r Adran wedi ail gydio yn ein cyfnewid gyda Collège Germain St- Ruf, Guadeloupe drwy alwadau byw a llythyru. Ar hyn o bryd rydym yn brysur yn paratoi ar gyfer ymweliad grŵp bach o ynys y Caribi ym mis Chwefror 2025.



Llwyddiant Poburdd

Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i Daisy Teisar o flwyddyn 10 a fydd yn cynrychioli Ysgol Llanhari yng Nghystadleuaeth Poburdd yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr



eleni. Llongyfarchiadau hefyd i Zack Crutcher o flwyddyn 10 am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth rhanbarthol.

Yn yr un modd, llongyfarchiadau i Elen Parry o ddsorbarth Gwenol a fydd hefyd yn cynrychioli Ysgol Llanhari yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ar ôl ennill cystadleuaeth Poburdd bl 6 ac iau.



Llongyfarchiadau hefyd i Mali Hobbs o ddsorbarth Lleucu a ddaeth yn drydydd yn y rhanbarth.

Prosiect Rhyngwladol

Mae'r Adran Wyddoniaeth wedi derbyn cyfle arbennig i fod yn rhan o brosiect rhyngwladol gydag ysgolion yn Dodoma, Tanzania. Fe fydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i gyd-weithio gyda ysgolion ar draws Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Mae'r prosiect am anelu at leihau achosion o facteria ymwrthiannol. Mae'r prosiect yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am destunau gyda'i gilydd a dysgu am effeithiau iechyd ar fywydau ei gilydd.

Clwb Garddio

Mae disgyblion wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn yn y clwb garddio ar ôl ysgol yn plannu ar gyfer y gwanwyn ac yn gofalu ar ôl planhigion o bob math. Diolch am gyfraniadau gan Clare Terry i'r clwb ac am ddod i ddysgu ni sut i ofalu amdany'n nhw ac am gyfraniadau o botiau a chompost gan rieni a staff. Mae'r disgyblion hefyd wedi bod yn brysur yn creu torchau Nadolig.



Llwyddiannau Chwaraeon

Mae disgyblion wedi bod yn brysur ers dechrau'r tymor yn mwynhau gemau cystadleuol yn erbyn nifer o ysgolion cyfagos. Enillodd tîm pêl-droed merched blwyddyn 9 a 10 yn erbyn Treorci a gwelwyd yr un llwyddiant i fechgyn blwyddyn 11 hefyd wrth iddyn nhw hefyd ennill.



Ennill oedd hanes tîm pêl-droed laf yr ysgol yn erbyn Ysgol Cwm Rhymini yng Nghystadleuaeth Cwpan Cymru yn ddiweddar. Roedd hi'n fuddugoliaeth ardderchog mewn tywydd diflas! Mae'r tîm wedi cyrraedd rownd yr 16 olaf. Pob lwc i chi yn y rownd nesaf!



Pob lwc hefyd i ferched blwyddyn 9 a 10 sydd wedi cyrraedd rownd yr 16 olaf yng Nghystadleuaeth Cwpan Cymru ar ôl curo Ysgol Uwchradd Aberhonddu 4-2 yn ddiweddar.

Bu merched pêl-rwyd blwyddyn 10 ac 11 yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Cenedlaethol Pêl-rwyd yr Urdd yn ystod y tymor. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cynrychioli'r ysgol.



Llongyfarchiadau mawr i Alana Lockett o flwyddyn 8 sydd wedi ennill y wobr aur yng nghystadleuaeth trampolinio Ysgolion Cymru. Bydd Alana'n mynd ymlaen i gystadlu ym mhencampwriaeth Prydain yn y misoedd nesaf. Pob lwc i ti!



Pob lwc i Mia Ryan o flwyddyn 8 a Henry Gilligan a Darcey Davies o flwyddyn 10 a fydd yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Nofio Cenedlaethol y Gaeaf yn Abertawe yn ddiweddarach y mis hwn.

Llongyfarchiadau hefyd i Geraint Barnes o flwyddyn 11 a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Golf Ieuencid Agored Ewrop yn Sbaen y mis diwethaf. Mae Geraint yn aelod o Glwb Golf Llantrisant a Phontyclun ac yn cystadlu'n wythnosol.



Ysgol Creigiau (Parhad)

Newyddion Ni!

Daeth gohebydd newyddion ac aelod o griw camera i'r ysgol i ffilmio tri disgybl Dosbarth 6 yn sôn am eu rôl yn ennill Gwobr Aur Parchu Hawliau. Siaradodd Alys, Nel ac Alys yn hyderus am yr holl waith caled yr oeddem wedi'i wneud fel ysgol i ennill y wobr. Roedden nhw wrth eu boddau yn perfformio o flaen y camera! Darlledwyd yr eitem newyddion ar "Newyddion Ni", rhaglen Gymraeg i blant ar S4C.



Ser y Teledu!

Ysgol Llanhari (Parhad)

Roedd disgyblion blwyddyn 7 wedi cystadlu'n frwd yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar gan ennill dwy gêm cyn colli yn rownd cyn-derfynol y Plât yn erbyn Ysgol Uwchradd Caerdydd. Da iawn chi ferched!



Llongyfarchiadau hefyd i ferched blwyddyn 9 a fu'n cynrychioli'r ysgol yn y gystadleuaeth. Diolch yn fawr i Mrs Reynolds am hyfforddi!



Diwrnod Shw'mae, Su'mae

Dathlwyd Diwrnod Shw'mae, Su'mae yn yr ysgol ddydd Mawrth, Hydref 15^{fed}. Braff oedd clywed gymaint o Gymraeg yn cael ei defnyddio ar draws yr ysgol. Diolch yn fawr i Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf am gynnal Disgo Tawel i ddisgyblion hŷn yr Adran Gynradd. Roedd pawb wrth eu boddau.



Cynllun Cyfaill

Mae Cynllun Cyfaill yr ysgol wedi ailgychwyn eleni gyda disgyblion hŷn yr adran uwchradd yn ymweld â dosbarthiadau'r adran gynradd. Braff yw gweld y plant yn mwynhau ac yn dysgu gyda'i gilydd.

Trosglwyddo

Diolch i ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Llantrisant, Dolau a Thonyrefail am ddod atom ni yn ddiweddar ar gyfer ein diwrnod trosglwyddo. Hyfryd oedd gweld y disgyblion yn dod i adnabod ei gilydd ac

yn mwynhau ar yr iard amser egwyl.

Teithiau

Mae'r hanner tymor yma wedi bod yn brysur iawn o ran teithiau! Aeth blwyddyn 6 i Gastell Henllys i ddysgu am ffordd o fyw'r Celtiaid. Roeddynt wrth eu boddau yn peintio wynebaw, adeiladu tŷ Celtaidd, creu menynd, malu blawd a chreu bara.

Aeth blwyddyn Dosbarth Gwennol i Gaerllion i ddysgu am ffordd o fyw'r Rhufeiniaid. Edrychon nhw ar arteffactau a mwynheun nhw fynd am dro o gwmpas yr amffitheatr.

Aeth dosbarth Tylluan i Lancaiach Fawr. Roedd yr actorion yn wych yna yn aros mewn cymeriad ac yn rhoi llwyth o wybodaeth i'r disgyblion. Roedd cymaint i weld yna ac roedd yn sbardun gwych ar gyfer y thema.

I Sain Ffagan aeth disgyblion dosbarthiadau Cnocell y Coed, Lleucu Llwynog a Cadi Cwningen y tymor hwn. Roeddynt yn edrych ar sut roedd bywyd wedi newid dros y blynyddoedd. Roedd ganddynt ryddid i grwydro ond hefyd roeddent wedi mwynhau sesiynau dysgu gyda'r staff a oedd yn werthfawr iawn.



Gêm Pêl-droed yr Urdd

Llongyfarchiadau i dim pêl-droed yr Adran Gynradd am gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar. Roeddech chi'n wych.



Shoctober

Diolch yn fawr iawn i Mr Pari am ddod i'r ysgol am gynnal sesiwn 'Shoctober' lle dysgodd y plant sgiliau achub bywyd. Braff eich croesawu yn ôl i'r ysgol.



TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:

Helen Prosser

prosserh@btinternet.com

Alun yn holi Carol

Diolch yn fawr iawn i Carol Hoskins am fod yn barod i gael sgwrs ag Alun Williams yn Yr Hen Lyfrgell yn Y Porth. Bydd y sgwrs yn cael ei defnyddio mewn sesiynau hyfforddi i helpu siaradwyr Cymraeg i sgwrsio ag oedolion sydd wrthi'n dysgu.



Brysiwch wella, Jeff

Da clywed bod Jeff Owen yn gwella ar ôl cael clun newydd. Yn edrych ymlaen at eich gweld yn brasgamu trwy'r pentref yn fuan, Jeff.

Dathlu'r Eisteddfod Genedlaethol

Cynhaliwyd cyngerdd i ddathlu pawb o Donyrefail a gymerodd ran yr yr Eisteddfod nos Fercher, 6 Tachwedd yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail.



Côr y Dysgwyr



Côr Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail



Mis Pysur i'r Clwb

Pan gyhoeddwyd y rhestr gemau ar gyfer Uwchadran Admiral ddechrau'r tymor, roedd yn amlwg i bawb yng Nghlwb Rygbi Pontypridd fod Tachwedd yn mynd i fod yn fis pwysig gyda nifer o ornestau anodd i'w gwynebu. Cadarnhawyd hyn wrth i'r tymor fynd yn ei flaen, gyda'r tri tîm oedd yn cystadlu llynedd yn Uwchadran Indigo gynt – Pontypridd, Castell Nedd a Merthyr – yn profi llwyddiant ac yn codi i frig y tabl. Yn ystod mis Tachwedd roedd yn rhaid i Bontypridd deithio oddi cartref i chwarae Merthyr a Chastell Nedd, ac hefyd i wynebu Aberhonddu gartref – clwb oedd wedi gwario arian mawr i arwyddo nifer o chwaraewyr a phrofiad ar y lefel broffesiynol.



Cychwynnodd y mis gyda gêm gartref yn erbyn Bonymaen, a buddugoliaeth pwynt bonws o 47 i 7 i Bontypridd. Y Sadwrn canlynol teithiodd Ponty i fynyr A470 i herio Merthyr yng 'ngornest ddarbi'r' cymoedd. Roedd hon yn gêm gorfforol, ddigyfaddawd, ac er i Ponty frwydro nôl yn gryf tua'r diwedd, colli oedd yr hanes, o 28 pwynt i 25, sef colled gyntaf y 'Valley Commandos' am y tymor cyn belled.

Aberhonddu oedd yr ymwelwyr i Heol Sardis y penwythnos ganlynol, yn cael eu hyfforddi gan gyn eicon Ponty Dale McIntosh ac yn edrych yn garfan gref gyda nifer o chwaraewyr o safon broffesiynol. Cafodd Aberhonddu gyfnodau o bwysu, ond amddiffyn Pontypridd yn ymdrechu'n lew a'r tîm cartref wedyn yn dangos eu gallu ymosodol i selio buddugoliaeth ardderchog o 43 pwynt i 11 gan sgorio chwe chais.

Wedi un penwythnos o hoe diweddodd Pontypridd y mis gyda thaith tua'r gorllewin i wynebu Castell Nedd ar faes enwog y Gnoll. Roedd y ddau dîm ar frîg yr adran, y ddau wedi ennill saith o'u hwyth gêm ac yn amlwg, er mor gynnar yn y tymor, roedd hon yn ornest hynod o bwysig. Roedd pwysau ychwanegol i raddau ar Bontypridd gan mai dyma'r gêm gyntaf wedi i'r prif-hyfforddwr Chris Dicomidis adael y clwb i gymryd swydd gyda rhanbarth Caerdydd, gyda'r clô profiadol Kristian Parker yn cymryd yr awennau fel chwaraewr-hyfforddwr.

Roedd yr ornest, fel y disgwyl, yn un agos a digyfaddawd, gyda Pontypridd lawr i 14 dyn trwy gydol yr ail hanner wedi i'r mewnwr Joel Raikes weld cerdyn goch. Dangosodd y tîm gymeriad anhygoel, yn

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Gwynfor Dafydd

Pleser o'r mwyaf oedd croesawu cyn-ddisgybl ac enillydd coron Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf - Gwynfor Dafydd i'r ysgol yn ddiweddar i ddathlu ei lwyddiant. Cafodd y plant gyfle i holi nifer o gwestiynau am y profiad o ennill y goron a bod yn rhan o'r seremoni. Roedd disgyblion Blwyddyn 6 wedi paratoi posteri lliwgar i ddathlu ei lwyddiant.



Gwynfor Dafydd yn siarad am y profiad o ennill y goron yn yr Eisteddfod

Elusen Cŵn y Deillion

Daeth Sue, Saxon ei chi tywys a Steve o elusen Cŵn y Deillion i siarad gyda disgyblion Cam Cynnydd 1 a 2 am waith yr elusen. Roedd y plant wedi dysgu llawer am sut y mae ci tywys yn helpu ei berchenog. I ddiolch iddynt am ddod, trefnwyd taith gerdded noddedig o amgylch yr ysgol mewn esgidiau glaw i gasglu arian i'r elusen.



Blwyddyn 1 gyda Saxon y ci tywys

Senedd Cymru

Fel rhan o'u gwaith ar Hawliau Plant fe aeth disgyblion Blwyddyn 4-6 ar ymweliad â Senedd Cymru ym Mae Caerdydd. Roedd pawb wedi dysgu llawer o'r ymweliad ac wedi mwynhau



Bl 4 a 5 yn siambr Senedd Cymru

amddiffyn yn arwrol ac yn cymryd eu cyfleodd wrth ymosod, i hawlio buddugoliaeth bwysig o 19 pwynt i 24 yn erbyn y Crysau Duon.

Dyna fis Tachwedd heriol wedi ei gyflawni gyda Ponty ar ei ddiwedd yn eistedd yn gyfforddus ar frîg y tabl, wedi ennill wyth o'u naw gêm, pedwar pwynt yn glir o Gastell Nedd yn yr ail safle a chwe phwynt o flaen Merthyr.

I gadw golwg ar hynt a helynt y 'Valley Commandos' galwch mewn i wefan CR Pontypridd www.ponty.net neu ar y safleodd cymdeithasol @pontypridrfc



Blwyddyn 5 a 6 yn Senedd Cymru

cael y cyfle i weld y Aelodau'r Senedd wrth eu gwaith yn y siambr. Bu'r plant hefyd yn ffodus iawn i gyfarfod â Rocío Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru.

Profiad y Nadolig



Diolch yn fawr i aelodau Eglwys Dewi Sant, Tonyrefail am wahodd disgyblion Blwyddyn 2 i fod yn rhan o 'Profiad y Nadolig' yn yr eglwys. Cafodd y plant gyfle i ddsygu mwy am hanes y geni o dan arweiniad yr aelodau. Diolch yn fawr iddynt am y croeso cynnes.

Plant Mewn Angen

Diolch i'r Llysgenhadon Hawliau Plant am gynnal gwasanaeth i sôn am waith Plant Mewn Angen yn y gymuned. Siaradwyd am hawliau plant a sut mae arian o'r elusen yn mynd i gefnogi'r hawliau hyn. Casglwyd swm o £245.45 ar y diwrnod, diolch yn fawr i bawb!



Llysgenhadon Hawliau Plant yn arwain gwasanaeth Diwrnod Plant Mewn Angen

Sul y Cofio

Cafwyd cynrychiolaeth o ddisgyblion Bl 4 a 6 i osod torch o babi coch ar y gofeb ym mynwent Trân fel rhan o wasanaeth Sul y Cofio yn Nhonyrefail. Diolch yn fawr iddynt.

